



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 1999-2000

Adroddiad y Prif Arolygydd

Ceir copïau pellach o'r ddogen hon oddi wrth:

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 5655
E-bost: ssiw@wales.gsi.gov.uk

Cynlluniwyd gan CartoGraffeg, G107/00-01 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysodi Gan Gwasanaethau Prosesi Testun, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ISSN 0 7504 2574 1

© Hawlfraint y Goron 2001

Ionawr 2001

Pennod 1

Gorolwg y Prif Arolygydd

Pennod 2

Adnoddau

Pennod 3

Cynllunio a Rheoli Perfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

Pennod 4

Rhaglen Arolygu

Pennod 5

Rheoleiddio

Pennod 6

Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

Pennod 7

Gofal Cymunedol: Gwasanaethau i Oedolion

Pennod 8

Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol: Swyddfa Ymchwil a Datblygiad Cymru

Atodiadau

- 1 Cyhoeddiadau Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- 2 Rhaglen Arolygu 2000-1
- 3 Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Strwythur
- 4 Rhaglen Ddatblygu 2000-1

Ychwanegiad

Ail Adroddiad Blynyddol y Grŵp Arolygu Ymglyghorol am y Flwyddyn 1999-2000

1.1 Hwn yw fy ail Adroddiad Blynyddol fel Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n ymwneud â'r flwyddyn 1999-2000. Y llynedd, soniais fod dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol yn dystiolaeth gynnar o werth canolbwyntio ystyriaeth ar anghenion Cymru, a bod creu Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phwyllgor lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cynulliad wedi cael croeso cyffredinol gan y rhai sy'n gweithio yn y meysydd gwasanaeth hyn. Mae eleni wedi pwysleisio wrth bob un ohonom fod cynllunio a darparu'r Gwasanaeth lechyd Gwladol a gwasanaethau cymdeithasol yn dasgau cymhleth ynddynt eu hunain a bod y naill a'r llall yn gofyn am sylw arbennig er mwyn sicrhau y cânt eu darparu mor effeithiol â phosibl.

1.2 Mae Gweinidog y Cynulliad a'r Pwyllgor wedi rhoi cryn sylw i'r ddau wasanaeth hwn ac wedi canolbwyntio ar ffyrdd i atgyfnerthu'r cysylltiad rhyngddynt ar lefelau polisi ac ymarfer. Ar ddechrau'r flwyddyn, cytunodd y Pwyllgor mai dyma fyddai ei flaenoriaethau wrth ddilyn dull iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd:

- gwella iechyd a delio ag anghydraddoldeb
- gweithio cydlynol
- datblygu gofal sylfaenol
- atgyfnerthu gwasanaethau plant
- gwella mynediad a phartneriaeth

1.3 Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd gyda'r agenda anodd hon ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaed hynny drwy wella'r cydweithio ar bynciau polisi ar draws ystod o arbenigeddau a gynhwysir o fewn y Cynulliad ei hun, a thrwy greu partneriaeth gyda'r rheiny sy'n ymwneud â gweithredu polisïau a darparu gwasanaethau yn y maes, o'r asiantaethau statudol, o'r sector annibynnol ac o blith mudiadau gwirfoddol.

1.4 Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhan hanfodol o ofal parhaus. Maent yn canolbwyntio ar helpu plant ac oedolion gydag anghenion penodol, eu teuluoedd a'u gofalwyr i reoli eu bywydau'n llwyddiannus. Mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cefnogi dros 100,000 o bobl ar unrhyw adeg, drwy wasanaethau yn eu cartrefi eu hunain, mewn lleoliadau dydd ac mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn anuniongyrchol yn helpu llawer iawn mwy o bobl, boed yn deulu, cymdogion neu gyfeillion. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas mewn amrywiaeth helaeth o amgylchiadau, gan hybu eu lles a'u hannibyniaeth yn ogystal â'u diogelu a'u gwarchod. Mae yna lawer iawn o hanesion da y gall defnyddwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr adrodd am yr



Graham Williams

effaith gadarnhaol a gaiff y gwasanaethau hyn ar fywydau pobl. Mae'n anffodus nad yw'r hanesion hyn yn cael y sylw cyhoeddus maent yn eu haeddu a bod y sylw'n canolbwyntio bron yn llwyr ar sefyllfaoedd lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le. Wrth gwrs, mae'n hanfodol bwysig dysgu o'r digwyddiadau hyn er mwyn ceisio atal camgymeriadau a gwallau rhag digwydd yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod y llwyddiannau niferus sydd i'w gweld yng ngwaith y gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru a cheisio rhoi cyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r rheiny hefyd.

1.5 Mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yn dal i weithio o dan bwysau sylweddol o ran adnoddau. Bydd gwasanaethau personol o'r math hwn bob amser yn wynebu anghenion sy'n fwy na'u gallu i ymateb, a bydd yn rhaid iddynt wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt a blaenoriaethu eu gwaith. Yn ei gyllideb flynyddol gyntaf, am y flwyddyn ariannol 2000-1, galluogodd setliad refeniw llywodraeth leol y Cynulliad Cenedlaethol gynnydd o ryw £48 miliwn yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn gynnydd o 8.5% ers y flwyddyn flaenorol ac yn ymateb i'r achos cryf a gyflwynwyd gan lywodraeth leol yn dangos yr angen am wario ychwanegol yn y maes hwn. Yn fuan bydd yn bosibl archwilio'r graddau mae awdurdodau wedi gallu cyfeirio'r gallu gwario ychwanegol hwn ar gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau i'r rheiny mewn angen.

1.6 Mae gwaith yn mynd ymlaen

ar weithredu'r agenda a bennwyd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn y Papur Gwyn i Gymru *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol* a chan y Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r rhain yn pwysleisio bod gwasanaethau cymdeithasol ymhlith y gwasanaethau pwysicaf mae llywodraeth ganolog a lleol yn gyfrifol amdanynt. Un o nodweddion y rhaglen weithredu yw gweithio agos ar y cyd rhwng y Cynulliad, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sectorau annibynnol a gwirfoddol, darparwyr hyfforddiant gwaith cymdeithasol a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalmwyr. Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (SSIW) yn arwain ar ran y Cynulliad mewn cysylltiad â:

- gwaith sy'n anelu at weithredu Cyngor Gofal Cymru ym mis Hydref 2001. Bydd hwn yn canolbwyntio ar godi safonau yn y gweithlu gofal cymdeithasol drwy gyflwyno codau ymddygiad i gyflogwyr a gweithwyr a system o gofrestru, a thrwy sefydlu perthynas uniongyrchol rhwng safonau sy'n cael eu gosod ar gyfer y gweithlu a dull strategol o ddelio â hyfforddiant. Mae hyn yn adeiladu ar ymrwymiad y Cynulliad i hyfforddiant, fel sydd wedi ei ymgorffori yn y flaenoriaeth a roddwyd ganddo i'w Raglen Cefnogi Hyfforddiant, a'r cynnydd mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i'w wneud tuag at gyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod yn y rhaglen honno. Mae hefyd yn dibynnu'n fawr ar waith Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol

Cymru, a fydd yn sylfaen gref ar gyfer datblygu'r Cyngor Gofal newydd arni. Mae'r buddsoddiad mae'r datblygiad hwn yn ei gynrychioli yn y gofal cymdeithasol yn cydnabod y rhan ganolog sydd gan staff ar bob lefel i sicrhau gwasanaeth o safon uchel sy'n diogelu ac yn diwallu anghenion pobl yn ein cymunedau

- datblygu fframwaith newydd i reoli perfformiad ar gyfer awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys:
 - ❑ datblygu dull cryfach o ddelio â gwasanaethau cynllunio sy'n anelu at symleiddio ac egluro gofynion cynllunio awdurdodau lleol. Bydd lleihau'r baich cynllunio yn rhyddhau amser ar lefel uwch-reolwyr er mwyn iddynt gael delio â'r agenda anodd sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y disgwyliad i'r broses gynllunio gael ei seilio ar anghenion unigolion, anghenion gofalwyr ac ar ganfod atebion sy'n sicrhau annibyniaeth a diogelwch gorau posibl i bobl sy'n agored i niwed yn parhau'n bynciau craidd.
 - ❑ cyflwyno set newydd o ddangosyddion perfformiad i ddangos y graddau mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni amcanion y gwasanaeth.
 - ❑ gwella gallu awdurdodau a'r Cynulliad i ddefnyddio gwybodaeth rheoli.
 - ❑ ymgorffori gwaith arolygon ar y cyd a gwaith monitro, datblygu ac arolygu SSIW ac eraill yn y fframwaith hwn.

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau

Cymdeithasol Cymru hefyd yn cyfrannu, ynghyd â chydweithwyr polisi, mewn meysydd pwysig eraill, gan gynnwys datblygu safonau clir i fod yn sail i ddarparu, monitro ac arolygu gwasanaethau i blant ac oedolion, a gwaith i baratoi ar gyfer cyflwyno trefniadau cryfach i reoleiddio gwasanaethau drwy sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ym mis Ebrill 2002.

1.7 Mae'n hanfodol bwysig fod y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn llwyddo yn y dasg o atgyfnerthu gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol ymhellach. Fel mae'r ddogfen *Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru: Eich Arwain Drwyddynt* yn nodi'n glir iawn, mae gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol i ffabrig y cymunedau lle rydym i gyd yn byw. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig i alluogi cymunedau i ffynnu ac i ofalu'n well am eu cyd-ddinasyddion. Roedd yr adroddiad, *Dysgu'r Gwersi o Arolygon ar y Cyd o Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, 1999-2000*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000, yn edrych ar ganfyddiadau arolygon ar y cyd, a gomisiynwyd gan y Comisiwn Archwilio ac SSIW, a gwblhawyd hyd yn hyn mewn chwe awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae darllen yr adroddiad hwn yn eich sobri, oherwydd er bod yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad, gwaith caled ac arfer da nifer o staff llinell-flaen, nid oedd yn barnu bod yr un o'r awdurdodau'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o bobl yn dda. Cafwyd bod pedwar awdurdod yn gwasanaethu rhai pobl yn dda, ac aseswyd bod tri o'r rheiny yn dangos arwyddion addawol ar gyfer gwelliant, a barnwyd bod rhagolygon y llall yn

peri gofid. Ystyriwyd nad oedd dau o'r chwe awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda, a barnwyd bod gan un ohonynt ragolygon sy'n peri gofid a'r llall ragolygon gwael ar gyfer newid. Mae'r adroddiad yn pwysleisio na wnaed unrhyw dybiaethau am gymhwyso canfyddiadau y chwe awdurdod i holl awdurdodau lleol Cymru. Roedd ein harolygiadau ni ein hunain yn dangos anghysondebau pendant mewn safonau gwasanaeth o fewn awdurdodau a rhwng awdurdodau. Mae'r adroddiadau hyn i gyd yn dangos bod angen i bob awdurdod feddwl am y graddau y gallai'r darganfyddiadau fod yn gymwys iddo ef, ac i ofyn iddo'i hun beth sydd angen ei wneud i gryfhau ei berfformiad ei hun o ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r chwe awdurdod a arolygwyd ar y cyd eisoes wedi ymrwymo i gynhyrchu cynlluniau gweithredu i gyflawni hyn, a byddwn yn monitro'u cynnydd wrth weithredu'r rhain. Rhaid cydnabod yn y cyd-destun hwn nad yw arolygon ar y cyd yn edrych ar Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, nac ar y ffordd mae ef neu hi yn cyflawni'r swydd. Maent yn edrych ar y ffordd mae pob rhan o'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu, ar lefelau gwleidyddol, corfforaethol a gwasanaeth, wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol effeithiol i'r bobl agored i niwed ac sydd angen y gwasanaethau.

1.8 Dylai pob awdurdod yng Nghymru ystyried fel blaenoriaeth a yw'r adroddiad *Dysgu'r Gwersi* yn codi pynciau sydd â goblygiadau o ran y ffordd mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth wneud hynny, bydd yn bwysig sicrhau bod

mewnbyn gwleidyddol, corfforaethol a gwasanaethau cymdeithasol arbenigol yn yr awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd i fesur y perfformiad cyfredol ac i weithredu i ddelio ag unrhyw ddiffygion a nodir. At hynny, gall fod potensial i weithio gydag awdurdodau eraill i rannu gwybodaeth, profiad, gwersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arfer da, a thynnu cyrff eraill i mewn a all ddarparu cymorth i ddelio â materion sy'n gofyn am sylw. Bydd materion mewn cysylltiad â gwasanaethau penodol yn codi o'r adroddiad. At hynny, bydd darganfyddiadau'r adroddiad yn codi cwestiynau am drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad cyfredol a chyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol, ac mae yna o leiaf chwe maes mae angen i bob awdurdod edrych arnynt o'r safbwynt hwn:

- Mae'r cyntaf yn ymwneud â rheoli newid. Gwyddom fod newid a ddigwyddodd oherwydd ad-drefnu llywodraeth leol wedi tarfu llawer ar y maes gwasanaeth sensitif hwn, a gwyddom o'n gwaith gyda'r Cynulliad ac o'r adroddiadau arolwg ar y cyd fod yr hyn a ddisgrifir yn "gynryfiadau strwythurol" yn dal i ddigwydd mewn llawer cyngor. Mae'r newidiadau cyfredol yn digwydd wrth i gynghorau geisio gwireddu'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â moderneiddio agenda llywodraeth leol, ac mae'n briodol iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r adroddiad hwn a'r hyn a wyddom am natur pobl agored i niwed sydd angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac am sensitifrwydd maes gwasanaeth hwn, rhaid i bob awdurdod ofyn iddo'i hun a all unrhyw drefniadau newydd achosi

gwahaniaeth gwirioneddol i'r nifer o bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol, ac nad yw'r newidiadau yn newidiadau er mwyn newid yn unig. Ni ellir cyfiawnhau gwasanaethau wedi eu hail-lunio o'r newydd na threfniadau rheoli newydd os nad yw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu'n ddigonol, os nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac os na ellir datblygu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion sy'n newid a disgwyliadau a safonau cliriach.

- Rhaid i'r ail faes sefydlu bod penderfyniadau am drefniadau'r dyfodol wedi eu llywio'n ddigonol gan wybodaeth ac arbenigedd gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adroddiad arolwg ar y cyd yn tanlinellu'n glir iawn bwysigrwydd gwaith cymdeithasol ac arfer gofal cymdeithasol da. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gael eu gosod ynghanol y broses o ddarparu gwasanaethau yn y llinell flaen ac o benderfynu'r cyfeiriad strategol. Ni ddylid gosod pobl mewn gwasanaethau sy'n bodoli, ond yn hytrach rhaid i wasanaethau gael eu teilwra i fodloni eu hanghenion asesiedig. Mae penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau, penderfyniadau am gyfeiriad strategol gwasanaethau, a'r broses o sicrhau perfformiad a rheoli swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am y sgiliau a'r profiad proffesiynol perthnasol. Rhaid i bob awdurdod ofyn iddo'i hun a yw'r rhain ar gael ac i'w cael ar y lefelau cywir. Maent yn bwysig yn y llinell flaen lle mae asesu a rheoli gofal yn hollbwysig. Maent

lawn mor bwysig ar lefel uwch-reolwyr ac ar lefel strategol lle mae'n rhaid penderfynu ar berfformiad a chyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol.

- Y trydydd maes yw sefydlu a oes gan awdurdodau ddigon o allu ar lefel uwch-reolwyr i ymgymryd â'r gwaith strategol sy'n angenrheidiol i ddelio â phob her sy'n deillio o adroddiad yr arolwg ar y cyd, y Papur Gwyn a'r Ddeddf Safonau Gofal. Yn fy Adroddiad Blynyddol cyntaf, mynegais fy ngofid am hyn gan sôn fod yr adnoddau a ddosbarthwyd ar gyfer rheoli gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio gwasanaethau, monitro ac arolygu perfformiad o dan bwysau sylweddol, ac anogais Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch-swyddogion ac aelodau i arolygu'r sefyllfa hon. Rwyf yn dal i'w hannog i wneud hynny.
- Yn bedwerydd, rhaid i ddisgwyliadau'r Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r swydd fod yn glir. Rwyf wedi dosbarthu dogfen o'r enw *Strategaeth o Safon ar gyfer Gofal Cymdeithasol* gan wahodd sylwadau ar y cwestiynau a godir ynddi er mwyn i ni allu ystyried safbwynt y Cynulliad ar hyn. Mae'r ddogfen yn pwysleisio bod yn rhaid i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gael trefniadau atebolrwydd clir:
- ❑ Rhaid iddo ef neu hi fod ar lefel digon uchel i sicrhau mynediad i bennaeth y gwasanaeth cyflogedig ac i gynghorwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol.

- ❑ Rhaid sicrhau atebolrwydd p'un a yw staff yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol neu gan staff uwch eraill y cyngor.
- ❑ Rhaid i Gyfarwyddwyr fod yn atebol am ansawdd gwasanaethau a datblygiad proffesiynol er mwyn i staff gwasanaethau cymdeithasol gael eu cefnogi i ddarparu gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol lle bynnag maent yn gweithio.

Mae perthnasedd sicrhau bod yna drefniadau clir ar gyfer atebolrwydd mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlwg o gofio'r her i awdurdodau yn sgil adroddiadau arolwg ar y cyd a'r Papur Gwyn:

- Y pumed maes yw cael trefniadau ym mhob awdurdod i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen am ddarparu, rheoli a datblygu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol a'r angen am sicrhau y cyfraniad gwasanaethau cymdeithasol gorau posibl mewn pynciau sy'n trawsdorri gan gynnwys cynhwysiad cymdeithasol, gwella iechyd, lleihau troseddau, a throseddau ieuenctid. Mae angen i'r trefniadau ar gyfer y naill a'r llall fod yn gryf a byddai lawer yn rhyw hawdd mynd ar ôl y naill ar draul y llall. Rhaid i wasanaethau cymdeithasol fod yn gryf ynddynt eu hunain cyn y gallant wneud eu cyfraniad llawn i'r agenda polisi cyfunol.
- Mae'r chweched maes yn codi'n amlwg iawn o nifer o'r canfyddiadau yn y cydadolygiadau. Dim ond pan fydd y cyfranwyr allweddol ar lefel

gwleidyddol a rheolaethol yn ddigon gwybodus am realiti darparu gwasanaethau cymdeithasol a'r agenda newid mae'n rhaid delio ag ef y gellir gwneud penderfyniadau effeithiol am drefniadau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol. Rhaid i awdurdodau ofyn iddynt eu hunain a oes gwneud mwy i gyflawni hyn mewn gwirionedd.

Bydd SSIW yn falch o gynorthwyo awdurdodau i ystyried y materion hyn lle bydd yn briodol gwneud hynny, a bydd yn cysylltu â hwy er mwyn canfod canlyniad eu trafodaethau yn ystod y misoedd i ddod. Bydd y pwyslais yn parhau ar weithio gydag awdurdodau i geisio cael ffyrdd adeiladol i ddatrys problemau a all godi wrth drefnu a darparu gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau gwasanaethau o safon i ddefnyddwyr, ac os oes diffygion yn y ffordd mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ni all y Cynulliad ganiatáu i'r rheiny barhau. Yn ystod y flwyddyn i ddod, ar ôl proses o ymgynghori, bydd y Cynulliad yn cyflwyno protocol ymyrryd a fydd yn nodi'r ffordd y bydd yn ymateb i bryderon difrifol, ac, os bydd angen, yn defnyddio'i bwerau statudol i sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth.

1.9 Mae canfyddiadau cydadolygiadau, cyhoeddi 'Ar Goll Mewn Gofal', y cyfeirir ato'n fwy penodol mewn rhan arall o'r Adroddiad hwn, ac Agenda'r Papur Gwyn yn gosod llawer her sylweddol i wasanaethau cymdeithasol, a bydd yr Arolygiaeth yn cymryd rhan flaenllaw mewn ymateb i'r rhain.

1.10 Rhwir sylw ar hyn o bryd i'r ffordd y gall SSIW dargedu ei adnoddau'n fwy effeithiol. Yn ogystal â'n gwaith ar godi safonau drwy reoleiddio, arolygu a rheoli perfformiad, byddwn, fel blaenoriaeth, yn canolbwyntio ar godi safonau ymarfer mewn asesu a rheoli gofal i unigolion, sydd wrth graidd darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol

1.11 Cawsom gymorth wrth arolygu gwaith SSIW gan archwiliad annibynnol a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000. Comisiynwyd yr archwiliad gan y Prif Arolygydd, David Evans diwethaf, yn sgil euogfarnu a charcharu cyn Arolygydd am droseddau difrifol yn erbyn plant a ddigwyddodd cyn iddo gyrraedd SSIW ac yn ystod ei gyflogaeth mewn cartref plant rhwng 1974 a 1980. Roedd y tîm archwilio'n cynnwys Dr Kevin McCoy, Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, a'r Athro Roger Clough o Brifysgol Caerhirfryn. Buont yn edrych ar y materion canlynol:

- a oedd gweithrediadau'r arolygydd yn ystod ei waith i SSIW yn gyson ag arfer da fel mae'n effeithio ar ddiogelwch plant a
- pha mor bell roedd systemau SSIW a'r Swyddfa Gymreig (ar y pryd) ar gyfer recriwtio ac arferion gweithio yn darparu diogelwch priodol i blant a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Daeth yr archwiliad i'r casgliad fod gweithrediadau'r arolygydd yn ystod ei gyflogaeth yn SSIW yn gyson ag arfer da. Yn bwysig iawn, cyflwynodd argymhellion hefyd i atgyfnerthu arferion recriwtio ac

arferion gweithio SSIW. Rwyf wedi croesawu canfyddiadau ac argymhellion y Tîm Archwilio oherwydd y byddant yn ein helpu i fod yn fwy effeithiol, ac rwyf wedi cychwyn cynllun i'w gweithredu. Yn ddiweddar, bûm yn arolygu'n cynllun gweithredu: mae camau a argymhellwyd wedi eu cymryd neu ar y gweill i gael eu gweithredu.

1.12 Mae corff fy Adroddiad Blynyddol yn disgrifio'r gwaith y bu SSIW yn ymwneud ag ef yn ystod 1999-2000 a'r cyfeiriad mae'n symud tuag ato ar hyn o bryd. Wrth wneud hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi a chydweithwyr proffesiynol eraill yn y Cynulliad, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol unigol. Mae SSIW yn cyflawni ei swyddogaeth yn y ffyrdd canlynol:

- drwy ddarparu cyfraniad gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol gwybodus a pherthnasol wrth lunio polisi
- drwy arwain gwaith ar reoli perfformiad a chodi safonau yn y gweithlu yn deillio o'r Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol a Deddf Safonau Gofal 2000, a thrwy gefnogi meysydd gwaith eraill sy'n cael eu harwain mewn mannau eraill yn y Cynulliad
- drwy waith yr Uned Arolygu i wneud y canlynol:
 - ❑ gweithredu rhaglen pum mlynedd y Cynulliad i arolygu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

- ☐ comisiynu rhaglen o gydadolygiadau o awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio
- ☐ gweithredu rhaglen arolygu ar gyfer gwaith timau troseddau ieuenctid a gwasanaethau eraill yn y maes cyfiawnder ieuenctid ar y cyd ag arolygiaethau eraill
- ☐ gweithredu rhaglen arolygu adolygiadau Gwerth Gorau mewn gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol
- ☐ ymestyn y gwaith sy'n dilyn arolygon, cyd adolygiadau ac arolygon Gwerth Gorau i sefydlu a yw awdurdodau'n gwneud cynnydd addas wrth ddelio â'u canfyddiadau.

Mae'r rhaglen arolygu wedi ei gosod allan yn Atodiad 2 yr

Adroddiad hwn

- drwy waith yr Unedau Datblygu ar gyfer plant ac oedolion wrth weithredu'r rhaglen ddatblygu, a nodir yn Atodiad 3 o'r Adroddiad hwn, ac sy'n ceisio atgyfnerthu gwasanaethau i blant ac oedolion a sicrhau eu lles.

1.13 Mae'r blynyddoedd i ddod yn hollbwysig o ran sicrhau'r atgyfnerthu angenrheidiol yn y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain ac o ran eu galluogi i chwarae eu rhan lawn, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill mewn awdurdodau lleol, y gwasanaeth ieuchyd, asiantaethau statudol eraill ac yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Bydd SSIW yn gwneud popeth o fewn ei allu a byddwn yn gweithio gydag eraill i godi safonau mewn gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, er lles pobl yn ein cymunedau.


2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i ddau o adnoddau allweddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Y cyntaf yw'r gyllideb refeniw, a bennir gan yr awdurdod lleol, a'r ail yw maint ac ansawdd y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Daw'r data a ddefnyddir yn y bennod hon o ffurflenni blynyddol a ddarperir gan awdurdodau lleol a'u casglu gan Is-adran Ystadegau y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gwasanaethau cymdeithasol nawr yn prynu nifer o wasanaethau o'r sector gwirfoddol neu breifat gan ddefnyddio'r cyllidebau refeniw. Mae staff yn yr asiantaethau hyn yn gwneud cyfraniad hanfodol i ofal cymdeithasol, ond ar hyn o bryd, dim ond data am weithwyr awdurdodau lleol sydd ar gael, ac felly nid oes manylion ar gael am y cyfraniad hwn.

2.2 Gwelir gwariant ar wasanaethau cymdeithasol yn Ffigur 2.1. Roedd y twf ar ddechrau'r 1990au yn deillio o drosglwyddo arian oddi wrth yr Adran Nawdd Cymdeithasol fel rhan o'r diwygiadau gofal cymunedol. Yn fwy diweddar, ar wahân i'r trosglwyddiadau hyn, mae'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi sefyll yn eu hunfan os nad wedi gostwng gan ystyried chwyddiant a phwysau galw. Nid yw'r ffigurau'n dangos y cynnydd o £48 miliwn a gyhoeddwyd gan y Cynulliad am y flwyddyn 2000.




Cyllid Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol

Ffigur 2.1: Gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol personol - tuedd




Ffigur 2.2: Gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol personol yn ôl grŵp - tuedd



2.3 Mae Ffigur 2.2 yn dangos y patrwm **gwariant** yn ôl grŵp cleientiaid. Mae hyn yn dangos y twf mewn gwariant ar wasanaethau i bobl hŷn fel rhan o'r rhaglen gofal cymunedol. Mae gwasanaethau i blant yng nghyd-destun Adroddiad Waterhouse wedi dangos twf yn

ddiweddar. Mae'r gwasanaethau ar gyfer anabledd dysgu hefyd wedi tyfu yng ngoleuni'r rhaglen ailsefydlu ysbytai. Ychydig dwf mewn gwariant yn ystod y cyfnod a welwyd mewn gwasanaethau i bobl ag anabledd a salwch meddwl.

Ffigur 2.3: Gwariant yn ôl grŵp cwsmeriaid 1999-2000 (amcangyfrif yn y gyllideb)



2.4 Mae amrywiaeth eang yn y gwariant rhwng awdurdodau (Ffigur 2.3). Mae rhywfaint o hyn yn adlewyrchu amrywiad o ran anghenion a ffactorau demograffig – ond mae hefyd yn adlewyrchu amrywiad eang mewn polisiau lleol ar gyfer grwpiau penodol o gleientiaid. Mae'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau cymdeithasol yn amrywio rhwng £256 y pen ym Merthyr i £166 y pen yn Sir Benfro.


Gweithlu gofal cymdeithasol

2.5 Mae dros 60,000 o bobl eu cyflogi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyflogi yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae nifer ohonynt yn ferched a nifer yn gweithio'n rhan-amser. Mae'r gwaith a wnânt yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau o safon ymatebol. Mae galw arnynt o ben bore hyd y nos, ac weithiau drwy'r nos 365 diwrnod y flwyddyn. Maent yn helpu pobl sy'n agored i

niwed gyda thasgau sylfaenol fel codi yn y bore, mynd i'r toiled, ymolchi, cadw'n gynnes, bwyta'n iawn, gan roi cefnogaeth i bobl sy'n gwella ansawdd eu bywydau. Mae staffio a rheoli gwasanaethau yn y gymuned yn dasg gymhleth, ac mewn ardaloedd gwledig yn arbennig nid yw bob amser yn hawdd darparu staff i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb gofynion cynllun gofal cymhleth. Mae angen cydnabod cyfraniad pwysig y staff hyn mewn darparu gofal cymdeithasol, eu gwerthfawrogi a rhoi iddynt y dulliau i wneud eu gwaith yn iawn. Un o'r dulliau allweddol hynny yw hyfforddiant o safon.

2.6 Mae **Ffigur 2.4** yn dangos niferoedd y staff llawn amser ar gyfer pob awdurdod unigol am bob 1,000 o gyfanswm y boblogaeth. Eto, mae yna amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau, yn amrywio o 4 am bob 1000 ym Mro Morgannwg i fwy nag 8 i bob 1000 yng Ngwynedd.

Ffigur 2.4: Gweithlu adranau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol. Staff amser-llawn cyfatebol am bob 1,000 o'r boblogaeth gyfan 1999.



Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant (TSP)

2.7 SSIW sy'n rhedeg y Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant (TSP) ar ran y Cynulliad. Nod cyffredinol TSP yw gwella ansawdd darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion a rheolaeth y gwasanaethau hynny drwy annog dull hyfforddi wedi ei gynllunio'n well ac annog mwy o bobl i fanteisio ar hyfforddiant

2.8 Nod penodol TSP yw cynyddu cyfran y staff sydd â'r cymwysterau,

y sgiliau a'r wybodaeth briodol ar gyfer y gwaith a wnânt. Bob blwyddyn, caiff adroddiad cynnydd ei baratoi sy'n canolbwyntio ar weithgareddau hyfforddi 22 awdurdod lleol Cymru. Mae'n cwmpasu gofal plant, gofal cymunedol, rheoli hyfforddiant a datblygiad. Er ei fod yn ymwneud yn bennaf â monitro llwyddiant a chanlyniadau'r rhaglen (cymwysterau a enillwyd), mae hefyd yn rhoi adroddiad am fuddsoddiad awdurdodau lleol.

Tabl 2.5: Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant 1997-8 i 1999-2000

	1997-8	1998-9	1999-2000
Grant TSP	£2.15m	£2.15m	£2.35m
Gwariant gyda chefnogaeth TSP	£3.07m	£3.07m	£3.4m
Cyfanswm cymwysterau penodol a enillwyd	465	617	900

2.9 Mae Tabl 2.5 yn dangos swm y grant TSP a ddarparwyd er 1997-8. Ym 1999-2000, rhoddwyd £2.35m i awdurdodau lleol i gefnogi eu gweithgareddau hyfforddi. Mae'r rhaglen yn eithriadol o boblogaidd – mae'r holl grant terfynol a gymeradwywyd wedi ei ddefnyddio bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyfrannu tuag at y rhaglen o'u hadnoddau eu hunain. Yn gyffredinol, am bob £1 o wariant a gefnogir gan y rhaglen, roedd awdurdodau'n ymrwymo £1.19c yn ychwanegol o'u hadnoddau eu hunain. Roedd hyn bron yn union fel y sefyllfa y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gwelwyd amrywiadau sylweddol yng nghyfraniadau awdurdodau unigol – yn amrywio o £0.54c i £2.68c am bob £1 o wariant TSP.


2.10 Dyma oedd y prif weithgareddau a chanlyniadau am y flwyddyn 1999-2000:

- mynychodd tua 42,000 o staff, neu ddefnyddwyr gwasanaethau ddigwyddiadau TSP;
- enillwyd dros 900 o gymwysterau penodol yn ystod y flwyddyn;
- roedd lefelau cyrhaeddiad tua 50% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

2.11 Yn ystod y pedair blynedd ers ad-drefnu llywodraeth leol::

- enillwyd dros 2,500 o dystysgrifau penodol;
- cafwyd cynnydd amlwg wedi bod bob blwyddyn yn y lefelau cyrhaeddiad.

Ffigur 2.5: Staff gwasanaethau preswyl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol, canran â chymwysterau 1999



2.12 Mae **Ffigur 2.5** yn dangos cyfran y staff preswyl gyda chymwysterau yng Nghymru, ac yma eto gwelir amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Ym 1999, roedd gan 13.7% o'r holl staff preswyl yng Nghymru gymhwyster ffurfiol.

Argymhellion Ar Goll mewn Gofal

2.13 Yn sgil argymhellion adroddiad Ymchwiliad Gogledd Cymru, cytunodd y Cynulliad i ymgynghori â Phwyllgorau Amddiffyn Plant y Rhanbarthau a'r sector gwirfoddol ynglŷn â lefelau hyfforddiant cyfredol mewn ymwybyddiaeth cam-drin rhywiol er mwyn sefydlu a oes yna fylchau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth hyfforddiant. Os bydd hyn yn nodi bod angen gwaith pellach, bydd y Cynulliad yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i ddatblygu a darparu pecynnau addas.

2.14 Roedd yr Adroddiad hefyd yn argymhell y dylai'r Cynulliad weithio gyda'r Sefydliad Hyfforddi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (TOPSS Cymru) i sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n cael ei recriwtio o'r newydd i'r sector preswyl yn derbyn hyfforddiant cynefino priodol ac amserol. Pennwyd targedau hyfforddiant cenedlaethol wedi eu gosod ar gyfer pob gradd ymhlith staff gofal plant preswyl. Mae'r Cynulliad ar fin cyflawni'r disgwyliadau canlynol:

- bydd gan yr holl swyddogion sydd â gofal cartrefi awdurdodau lleol gymhwyster priodol erbyn mis Medi 2000
- pob dirprwy erbyn mis Medi 2002
- bydd gan yr holl staff gofal plant preswyl gymhwyster priodol erbyn mis Medi 2003.

Adnoddau

2.15 Bydd y Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi pwerau cryfach i'r Cyngor Gofal newydd i reoleiddio darparwyr hyfforddiant gwaith

cymdeithasol. Tasg y cyngorau fydd sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer eu swyddi.

Cynllunio a Rheoli Perfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1 Roedd yr adroddiad *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol* yn datgan "na all darparu gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd wael neu aneffeithlon gael ei ddioddef ddim mwy". Roedd y Papur Gwyn yn cynnig rhaglen eang o waith angenrheidiol i fesur a monitro perfformiad mewn gwasanaethau cymdeithasol drwy greu fframwaith cynhwysfawr i reoli perfformiad yng Nghymru. Byddai angen iddo gysylltu gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Gwerth Gorau, ar gyfer datblygu fframwaith cynllunio newydd i awdurdodau lleol, i greu dangosyddion perfformiad effeithiol a rhaglen o arolygu, monitro ac adolygu

3.2 Mae SSIW wedi ymgymryd â'r gwaith hwn ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Cyrhaeddwyd tair carreg filltir bwysig eisoes mewn cysylltiad â'r rhaglen hon:

- gwaith ymchwil helaeth gan Sefydliad Nuffield, Leeds ar adnoddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'u gallu i ddefnyddio a datblygu gwybodaeth rheoli
- cyhoeddi cyfarwyddyd newydd ar gyfer cynllunio mewn gwasanaethau cymdeithasol
- ymgynghori'n helaeth ag awdurdodau am ddatblygu fframwaith newydd i reoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

3.3 Mae rhaglen o waith newydd yn seiliedig ar y tri chyrhaeddiad hwn nawr ar y gweill i helpu darparu hyn. Mae'r canlynol yn nodi manylion y rhaglen hon.

Cyfarwyddyd cynllunio

3.4 Mae cyfarwyddyd cynllunio newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi ei gyhoeddi nawr yn sgil ymgynghori helaeth yn ystod yr haf 2000. Mae'n pwysleisio'r angen am dynnu oddi ar Strategaethau Cymunedol, Rhaglenni Gwella Iechyd a'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc sydd i ddod a'r hyn sy'n cyfateb yn lleol, gan adlewyrchu swyddogaeth ganolog gwasanaethau cymdeithasol wrth ddarparu'r strategaethau hyn. Felly, mae'r Cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cynllun strategol priodol ar gyfer eu gwasanaethau cymdeithasol sy'n cwmpasu pum mlynedd, a fydd yn cael ei fonitro gan adroddiadau blynyddol a chynlluniau busnes.

3.5 Mae'r cyfarwyddyd yn cynnig y dylai cynlluniau strategol tymor hir lywio prosesau lleol ar gyfer gwerth gorau, ynghyd â phrosesau mewnol gwell i reoli perfformiad. Felly, rhaid i gynllunio a chynllunio ar y cyd gael adnoddau priodol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Dylai awdurdodi gyhoeddi cynlluniau strategol newydd erbyn mis Gorffennaf 2002 fan bellaf, ac fe'u hanogir i ddatblygu datganiadau strategol craidd a phrosesau rheoli perfformiad ar gyfer ymgynghori cyn y dyddiad hwnnw.

Datblygu fframwaith newydd i reoli perfformiad

3.6 Roedd y gwaith ymchwil a wnaed gan Sefydliad Iechyd Nuffield yn tynnu sylw at y materion canlynol:

- nad oedd cysylltiad rhwng gofynion gwybodaeth ar wasanaethau cymdeithasol

Cynllunio a Rheoli Perfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

awdurdodau lleol a gofynion gweithredol a galwadau strategol lleol

- nid oedd amcanion polisi wedi eu nodi'n glir bob amser
- nid oedd rheoli perfformiad yn cael ei ddefnyddio'n weithredol mewn awdurdodau ar hyd a lled Cymru.

3.7 Serch hynny, daeth yr ymchwilwyr i'r casgliad fod yna barodrwydd eithriadol i ddelio â'r agenda hon ac mai'r ffordd orau i ddelio â hyn oedd ar sail cydweithrediad rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Dylai hynny helpu sicrhau dull cydlynol o ddelio â datblygu rheolaeth perfformiad.


3.8 Yn ystod yr haf 2000 hefyd, ymgynghorwyd ar fframwaith amlinell yn seiliedig ar gysylltu tair haen sy'n ymwneud â rheoli perfformiad.

Dyma oedd y tair haen:

- anghenion lleol** am wybodaeth yn seiliedig ar gyd-destun lleol gwasanaethau cymdeithasol ac yn gysylltiedig â phroses leol o reoli perfformiad.
- amcanion cenedlaethol a thargedau cenedlaethol clir**, fel y rhai ym Mhapur Gwyn y gwasanaethau cymdeithasol Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, a pherfformiad cymharol yn erbyn targedau yn seiliedig ar adroddiadau clir drwy wybodaeth ystadegau a gwybodaeth ansoddol.
- trefn gyffredinol **arolygu a monitro** y Cynulliad gan gynnwys adolygiadau SSIW, adolygiadau Gwerth Gorau, adolygiadau ar y cyd a monitro gan SSIW a'r Grŵp Polisi Cymdeithasol.

Mae'r diagram sy'n dilyn yn dangos sut y dylid cysylltu'r prosesau hyn

Fframwaith Rheoli Perfformiad



3.9 Mae'r patrwm hwn wedi ei rannu mewn ymarferion ymgynghori ac wedi cael cefnogaeth. Bydd gwaith yn dechrau ar y canlynol:

- cytuno ar ddiffiniadau data a phrotocolau casglu ar gyfer set gychwynnol o ddangosyddion craidd yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad Gwerth Gorau/Cytundeb Polisi a set o ddata ansoddol sylfaenol, yn gosod y sail ar gyfer set ehangach o ddangosyddion yn y dyfodol i atgyfnerthu'r rhaglenni hynny
- datblygu adnoddau a gallu mewn awdurdodau lleol i gynhyrchu a dysgu o wybodaeth rheoli perfformiad, drwy raglen fuddsoddi mewn staffio a thechnoleg a thrwy hyfforddi rheolwyr i ddefnyddio gwybodaeth rheoli perfformiad
- cydlynu prosesau arolygu a gwybodaeth rheoli perfformiad i gynhyrchu dull cynhwysfawr o fonitro a gwerthuso gwaith adrannau unigol.

3.10 Erbyn hyn, mae SSIW wedi dechrau ar y rhaglen hon yn seiliedig ar y fframwaith a amlinellwyd uchod, gan gynnwys sefydlu set o wybodaeth graidd, datblygu set ehangach ar gyfer y dyfodol, cefnogi buddsoddi sylweddol mewn ariannu i awdurdodau lleol i wella'u ffordd o gasglu a rheoli gwybodaeth, a darparu rhaglen genedlaethol o hyfforddiant rheoli yn gysylltiedig â'r rhaglen hon.

3.11 Mae'r gwaith hwn hefyd yn darparu fframwaith i gysylltu nifer o weithgareddau SSIW. I'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd lawer mwy cynhwysfawr nag a fu'n bosibl hyd yn hyn, bydd adolygiadau, adolygiadau o'r gwasanaeth cyfan a gwybodaeth rheoli perfformiad yn cael eu cysylltu a'u defnyddio i nodi sut y gall gwasanaethau gael eu datblygu ledled Cymru i gwrdd â her y gwasanaeth yn y dyfodol.

Cyflwyniad

4.1 Y rhaglen arolygu ar gyfer 1999-2000 oedd yr un gyntaf i gael ei llunio o fewn y fframwaith pum-mlynedd newydd a oedd wedi ei chytuno'n gynharach gan Weinidogion ar ôl ymgynghori â chyrff sydd â diddordeb. Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau y bydd pob awdurdod lleol yn cael y canlynol yn ystod y pum mlynedd:

- cyd-adolygiad (o holl waith y gwasanaethau cymdeithasol)
- arolygiad mawr o wasanaethau plant
- arolygiad mawr o wasanaethau oedolion.

Golyga hyn y bydd y rhaglen arolygu yn rhoi golwg gynhwysfawr a threfnus ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Bydd yr holl adolygiadau mawr hyn yn arwain at gyhoeddi adroddiad am yr awdurdod unigol.

4.2 Yn ogystal, roedd y rhaglen yn cynnwys adolygiadau thematig, wedi eu bwriadu i roi un adroddiad gorolwg am bwnc penodol, ac adolygiadau rheoleiddio o wasanaethau neu sefydliadau penodol sy'n rhaid eu cymeradwyo neu eu cofrestru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyd adolygiadau

4.3 Bydd tîm arbenigol ar ran Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yn gwneud cyd adolygiadau o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Eu diben yw darparu asesiad gwrthrychol o'r graddau mae pobl leol yn cael eu



gwasanaethu gan wasanaethau cymdeithasol y Cyngor, a chyfrannu'n adeiladol at welliant pellach.

4.4 Cafodd yr adroddiadau cyntaf (o adolygiadau a wnaed ym 1998-9) ar awdurdodau yng Nghymru (Powys a Thorfaen) eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 1999. Roedd hwn yn ddigwyddiad o bwys a ddenodd lawer o ddiddordeb gwleidyddol ac yn y cyfryngau, yn enwedig gan fod un o'r adroddiadau wedi datgelu cryn ofid. Gwnaed pedwar adolygiad pellach (ar Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Ynys Môn a Bro Morgannwg) ym 1999-2000. Cyhoeddwyd un adroddiad ym mis Mawrth 2000 ac un arall ym mis Mehefin. Cyhoeddwyd y ddau arall ym mis Medi 2000. Cafodd adroddiad i grynhoi canfyddiadau'r chwe adolygiad cyntaf, a'u goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gyfan, ei gyhoeddi ym mis Hydref 2000.

4.5 Adroddiadau mawr ar gyfer yr awdurdod lleol yn gyfan, nid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn unig, yw cyd adolygiadau. Mae'r adolygiadau hyd yn hyn yn dangos na fydd y gwasanaeth yn ffynnu pan fydd cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol i'r gwasanaethau

cymdeithasol yn wan. Mae angen gwneud llawer o waith o hyd mewn cynghorau i wella dealltwriaeth o wasanaethau cymdeithasol, ac i sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i'r angen lleol. Mae yna arwyddion eisoes fod cyd adolygiadau'n helpu'r broses hon.

Gwasanaethau Plant

4.6 Ym 1999-2000 parhawyd ein cyfres o adolygiadau ar wasanaethau plant mewn angen, a gwnaed adolygiadau yng Nghaerdydd a Chonwy. Gwnaed arolygiad arbennig, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn sgil cryn ofid cyhoeddus o reolaeth ac arferion gwasanaethau plant yng Nghaerffili. Defnyddiai'r arolygiad hwn safonau'r adolygiadau o blant mewn angen, gyda safonau ychwanegol o adolygiadau cynharach o drefniadau rheolaeth. Roedd yr holl adolygiadau hyn yn edrych ar y ffordd roedd gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn derbyn ac yn gweithredu ar achosion cyfeirio, ac ystod y cyfleusterau a ddarperid ar gyfer plant mewn angen, gan gynnwys plant ag anableddau.

4.7 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd amrywiaeth y cyfleusterau, a ddarperid yn aml mewn partneriaeth gyda chyrff gwirfoddol, yn arbennig iawn. Roedd awdurdodau'n cael mwy o anhawster i ddarparu gwasanaeth asesu a rheoli gofal cyson digonol (i asesu anghenion, pennu gwasanaethau a monitro cynnydd) oherwydd pwysau gwaith uchel, anhawster wrth recriwtio a chadw staff, ac mewn rhai achosion, oherwydd goruchwyllo annigonol gan reolwyr a chymorth i sicrhau safonau da.

4.8 Roedd rhai adolygiadau'n dangos y pwysau mawr sydd ar rai rheolwyr a staff mewn gwaith gwasanaethau plant, a hynny'n fwy oherwydd y proffil cyhoeddus uchel a roir i fethiannau. Mae'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn ceisio codi safonau a gwella canlyniadau i blant yn unol ag argymhellion adroddiad Waterhouse. Mae ein harolygiadau'n dangos bod angen mwy o waith ar anghenion a chostau gwasanaethau plant, ac ar staffio a rheolaeth, a bydd angen monitro'r rhain yn ofalus dros gyfnod hir i sicrhau gwelliant parhaus.

4.9 Ar y cyd ag Estyn (yr arolygiaeth addysg), gwnaed arolygiad o addysg plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol. Hwn yw'r tro cyntaf i ni ymuno ag Estyn mewn ymarfer o'r natur a'r maint hwn. Mae testun yr arolygiad yn amserol, o gofio targedau penodol yn y rhaglen Plant yn Gyntaf ar gyfer cyrhaeddiad addysgol, ac o gofio'r bwriadau amlwg gan lywodraeth leol a chanol ar gyfer gweithio "cydlynol" ar draws ffiniau adrannau. Gwnaed gwaith maes mewn pedwar awdurdod lleol, a gafodd sylwadau unigol am eu perfformiad. Bydd adroddiad cenedlaethol, sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau ac yn rhoi casgliadau cyffredinol.

Gwasanaethau oedolion

4.10 Daeth ein cyfres gyntaf o adolygiadau o wasanaethau oedolion ers cryn amser, ar gynllunio a rheoli gofal, i ben gydag adolygiadau yn Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr. (Cyhoeddwyd adroddiad Sir Fynwy ym mis Mai 2000, ac roedd adroddiad Pen-y-bont ar Ogwr i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y

flwyddyn.) Cyhoeddir adroddiad gorolwg o'r gyfres gyfan (pum arolygiad). Yn gyffredinol, gwelsom wasanaethau a oedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rheiny sy'n eu defnyddio, ond a amrywiai'n sylweddol o ran ansawdd y rheoli a'r graddau roeddent yn cynnal adolygiadau o achosion ar ôl i bobl gael eu hasesu ac ar ôl darparu gwasanaethau iddynt.

4.11 Dechreuwyd cyfres newydd ar ofal a diogelwch i bobl â salwch meddwl gydag adolygiadau yn Sir Ddinbych a Blaenau Gwent. Daw'r gyfres i ben gyda dau arolygiad pellach yn 2000-1. Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn faes lle mae angen i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd weithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae canfyddiadau cynnar ein harolygiadau'n dangos bod gweithio ar y cyd yn gofyn am roi cydnabyddiaeth glir i wahanol swyddogaethau a rheolaeth weithredol gan y naill ochr a'r llall. Mae hefyd yn gofyn am reolwyr penigamp ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ym mhob sefydliad.

Adolygiadau thematig

4.12 Roedd ein rhaglen ar gyfer 1999-2000 yn cynnwys dau arolygiad thematig; ar gymhwyster a pholisïau codi tâl am wasanaethau gofal cymunedol a thimau dyletswydd argyfwng (gwasanaethau pan fydd swyddfeydd ar gau). Mae'r arolygon a'r gwaith maes ar gyfer yr arolygiad timau dyletswydd argyfwng wedi dod i ben; caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod 2000-1. Dechreuwyd cynllunio'r arolygiad cymhwyster a pholisi codi tâl, yna bu oedi tra oeddem yn disgwyl cyhoeddi adroddiad diweddar y Comisiwn

Archwilio Codi Tâl gyda gofal – sut mae cynghorau'n codi tâl am ofal cartref.

4.13 Cwblhawyd yr arolygiad o unedau cofrestru ac archwilio awdurdodau lleol, a oedd wedi dechrau ym 1998-9. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2000. Roedd yr arolygiad yn dangos bod gan yr un ar ddeg uned yng Nghymru ddull tebyg yn gyffredinol ond nifer o wahanol arferion a gweithdrefnau. Maent i gyd yn gweithio'n galed i sicrhau safonau a chynnal dulliau diogelwch i'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Y bwlch pennaf yw diffyg trefniadau clir a chyson rhwng yr arolygwyr a staff y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad o ddydd i ddydd â phobl yn y cartrefi a arolygwyd ac mewn lleoliadau gofal eraill, neu sy'n rheoli contractau gyda'r bobl sy'n eu rhedeg. Golyga hyn y gall cwynion a phryderon fynd drwy'r rhwyd, yn hytrach na chael eu gosod gyda'i gilydd i ddod o hyd i unrhyw batrymau sy'n peri gofid. Bydd angen gwneud trefniadau clir i reoli hyn yn yr Arolygiaeth Safonau Gofal newydd o 2002.

Adolygiadau rheoleiddio

4.14 Gwnaed ymweliadau arolygu wedi eu cyhoeddi ac annisgwyl â dau gartref gwirfoddol i blant sydd wedi eu cofrestru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yr Ysgrifennydd Gwladol gynt). Nid oedd y prosiect lloches gwirfoddol a oedd i gael ei arolygu yn gweithredu yn ystod y flwyddyn. Yn y pen draw, penderfynodd y corff gwirfoddol a oedd yn gyfrifol amdano ei gau.

4.15 Gohiriwyd arolygiad yr asiantaeth fabwysiadu wirfoddol yng nghanen Caerdydd o BAAF – gwaith

a wnawn ar ran yr Adran Iechyd (sy'n cymeradwyo BAAF drwy ei swyddfa ganolog yn Llundain) tan y flwyddyn arolygu nesaf. Gwnaed gwaith pellach mewn perthynas ag asiantaeth fabwysiadu Cymdeithas Gatholig Gofal Plant a Theuluoedd, i ddatrys materion a oedd wedi cod yn arolygiad y flwyddyn flaenorol.

4.16 Nid oedd angen gwneud arolygiad ffurfiol o unrhyw lety diogel. Roedd angen gwaith arolygu pellach, fodd bynnag, oherwydd datblygiadau yn Hillside (yng Nghastell-nedd Port Talbot) ac yn y Ganolfan Adnoddau Plant yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r uned ddiogel yn y fan hon wedi cau erbyn hyn.

Gwaith datblygu

4.17 Yn ystod y flwyddyn, roedd angen gweithgarwch datblygu mewn dau faes gwaith yn y dyfodol. Cyhoeddodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr ei fwriad i gomisiynu adolygiadau aml-ddisgyblaethol o'r trefniadau cyfiawnder ieuenctid newydd (gan gynnwys timau troseddau ieuenctid a llety diogel). Bu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru a Lloegr i gytuno sut y caiff hyn ei wneud. Bydd adolygiadau'n cychwyn yn y flwyddyn 2000-1.

4.18 Roedd Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn cyflwyno cyfrifoldebau Gwerth Gorau i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cynlluniau perfformiad blynyddol ac i wneud adolygiadau gwasanaeth gwerth gorau o'u holl swyddogaethau. Bydd yr adolygiadau hyn yn eu tro yn cael eu harolygu'n

fewnol. Drwy Fforwm Arolygiaeth Cymru sydd newydd ei sefydlu, mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithio gydag arolygiaethau eraill, y Comisiwn Archwilio, archwilwyr dosbarth, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a swyddogion perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol i gytuno sut y caiff yr adolygiadau newydd eu cyflawni. Bydd y rheiny hefyd yn dechrau yn y flwyddyn 2000-1.

4.19 Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed yn fewnol i ddiwygio a gosod cod ar ein gweithdrefnau ac i'w gwneud yn fwy eglur i'r rhai rydym yn eu harolygu ac eraill sydd â diddordeb yn ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys llawlyfr arolygu newydd, taflenni sy'n egluro'n swyddogaeth, swyddogaeth gliriach i aseswyr lleig, a chod ymddygiad i arolygwyr. Bydd y datblygiadau hyn yn cwrdd ag argymhellion yn adroddiad yr archwiliad o SSIW a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2000.

Effaith adolygiadau

4.20 Mae dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi achosi newidiadau yn y ffordd y delir ag adroddiadau adolygiadau. Mae adroddiadau nawr yn mynd at y Gweinidog yn y Cynulliad sydd yn ei dro yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Gweinidog yn y Cynulliad wedi gwneud yn glir ei bod yn dymuno gweithio mewn partneriaeth adeiladol gydag awdurdodau lleol i sicrhau gweithredu ar ddarganfyddiadau adolygiadau a chyd adolygiadau. Pan fydd gofid arbennig, bydd yn cyfarfod ag arweinwyr Cynghorau i gadarnhau eu hymrwymiad i gywiro'r mater, ar y ddealltwriaeth y bydd

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro'r cynnydd. Mewn nifer o achosion nawr, rydym wedi gweld newid er lles.

4.21 Gyda phob adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi nawr bydd hysbysiad i'r wasg, wedi ei lunio i roi gwell gwybodaeth i'r cyhoedd am adolygiadau a'u canfyddiadau. Natur y pethau hyn yw fod rhai adroddiadau'n denu mwy o sylw nag eraill, a'i bod yn fwy anodd cyfleu newyddion da na newyddion drwg. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddusrwydd wedi helpu agor y broses arolygu a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau o safon dda.

4.22 Mae'r Grŵp Arolygu Ymgynghorol, sef corff cyhoeddus sy'n cael ei noddi gan y Cynulliad ac a sefydlwyd i'n cyngori am ein gwaith arolygu, yn golygu bod mwy o gyhoeddusrwydd i adolygiadau a'u bod yn cael mwy o effaith. Rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth a'u cyfarwyddyd. Gwelir adroddiad blynyddol y Grŵp fel Atodiad i'r Adroddiad hwn

Casgliadau

4.23 Yn y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi sôn sut y llwyddodd adrannau gwasanaethau cymdeithasol i redeg y gwasanaethau yn ystod ad-drefnu llywodraeth leol, a dechrau ar rywfaint o'r gwaith cefndir manwl angenrheidiol i gynnal a datblygu gwasanaethau da. Eleni, rydym wedi gweld mwy o'r pwysau sy'n cael ei achosi gan y gwaith ei hun, yr ymdrech i gydbwysu llwythi gwaith yn erbyn adnoddau, y diffygion mewn gallu technegol a'r tensiynau neu'r newidiadau mewn trefniadau corfforaethol. Yn y cefndir hwn, mae wedi bod yn fwy anodd cadw ynghyd amrywiol rannau'r sefydliad ac amrywiol swyddogaethau rheolwyr a darparu gwasanaeth. Mae adolygiadau'n dangos bod llwyddiant yn dibynnu'n hanfodol ar y cydlynid hwnnw – sefydliadau cydlynol yn darparu rheolaeth gydlynol o wasanaethau cydlynol.

Diwygiadau deddfwriaethol

5.1 Mae'r Ddeddf Safonau Gofal 2000, a dderbyniodd Ganiatâd Brenhinol ym mis Gorffennaf, yn sefydlu fframwaith ar gyfer trefniadau rheoleiddio ac arolygu newydd mewn gofal cymdeithasol. Bydd yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu, erbyn mis Ebrill 2002, Arolygiaeth Safonau Gofal newydd fel rhan integredig o'r Cynulliad. Bydd hon yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau i oedolion a phlant sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd gan unedau arolygu awdurdodau lleol ac awdurdodau ieuchyd. Bydd y darpariaethau hefyd yn ymestyn rheoleiddio i asiantaethau gofal cartref, asiantaethau meithrin annibynnol, canolfannau teulu preswyl, cartrefi bach i blant a chartrefi oedolion sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd, ac yn sefydlu trefniadau lles i ysgolion gyda darpariaeth breswyl.

Safonau cenedlaethol

5.2 Bwriada'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno safonau rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ofal cymdeithasol sydd i gael eu rheoleiddio gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal newydd. Bydd y rhain yn rhoi mwy o eglurder a chysondeb mewn ansawdd gwasanaethau ledled y wlad. Mae hon yn rhaglen enfawr a bydd ymgynghori helaeth i benderfynu sut y caiff y safonau newydd eu gweithredu.

Codi safonau yn y gweithlu gofal cymdeithasol

5.3 Caiff dros 60,000 o bobl eu cyflogi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru – y rhan fwyaf yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Ar hyn

o bryd, mae dros 80% heb y cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith pwysig a wnânt.

5.4 Dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru allu dibynnu ar weithlu sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sy'n cael eu rheoleiddio'n effeithiol. Ar yr un pryd, dylai'r gweithlu allu disgwyl cefnogaeth a chydnyddiaeth briodol.

5.5 Caiff Cyngor Gofal Cymru ei sefydlu ar 1 Hydref 2001. Bydd y corff newydd hwn, sydd hefyd yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf Safonau Gofal, yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, a disgwylir iddo godi lefelau hyfforddiant a chymwysterau. Nid y proffesiwn ei hun fydd fwyaf amlwg yn y Cyngor Gofal: bydd gan yr holl gyrff allweddol sydd â diddordeb, fel cyflogwyr a darparwyr addysg, cyrff proffesiynol ac undebau llafur lais ond defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a phobl leyg eraill fydd mwyafrif yr aelodau.

5.6 Bydd y Cyngor Gofal yn gosod y safonau mewn gofal cymdeithasol drwy godau ymddygiad a chodau arfer i weithwyr a chyflogwyr. Ond y prif lifer wrth reoleiddio safonau fydd drwy gofrestru'r unigolion sydd yn y gweithlu. Mae'r Ddeddf Safonau Gofal yn rhoi grym i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu cwmphas a chyflymdra y broses gofrestru. Roedd yn amlwg o'r ymgynghori yng Nghymru y byddai'r holl gyrff allweddol sydd â diddordeb yn hoffi i ni symud mor gyflym â phosibl tuag at gofrestru'r gweithlu i gyd – pobl gyda chymwysterau a heb gymwysterau. Disgwylwn i'r gwaith cofrestru ddechrau yn y flwyddyn 2002.

5.7 Bydd y Cyngor newydd yn cael y dasg o reoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer y Deyrnas Gyfunol i gyd. A bydd yn cymryd swyddogaethau'r Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol i'r Gwaith Cymdeithasol (TOPSS) yng Nghymru. Disgwylwn y bydd TOPSS yn cynhyrchu drafft o Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol yn ystod haf 2002.

Gwaith arolygu statudol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol: Cefndir, cwmpas a dull

5.8 Er 1994-5, mae SSIW wedi monitro a yw unedau arolygu awdurdodau lleol wedi diwallu'r gofynion statudol isaf a osodwyd arnynt. Bob blwyddyn, byddwn yn gwahodd awdurdodau lleol i lenwi ffurflen syml ynglŷn ag adolygiadau a wnaed ar eu rhan. Hyd yn hyn, nid yw'r ymarfer monitro hwn wedi cynnwys unrhyw archwiliad annibynnol. Yn syml, mae'n edrych i weld a oes adolygiadau wedi eu gwneud – mae SSIW yn defnyddio dulliau eraill i edrych ar agweddau eraill ar arolygu. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad arolygiad ar waith yr unedau (gweler Pennod 4).

5.9 Byddwn yn holi am y materion canlynol:

- cartrefi gofal preswyl i bedwar neu ragor o drigolion sydd wedi cofrestru gyda'r awdurdod lleol o dan Ran I Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984;
- llety preswyl a ddarperir gan yr awdurdod lleol ei hun o dan Ran III Deddf Cymorth Gwladol 1948;

- cartrefi preifat i blant a gofrestrwyd gyda'r awdurdod o dan Ran VIII Deddf Plant 1989, gan gynnwys ysgolion annibynnol wedi cofrestru fel cartrefi plant
- cartrefi cymunedol i blant a ddarperir gan yr awdurdod ei hun o dan Ran VI Deddf Plant 1989
- ysgolion annibynnol sy'n cael eu harolygu gan yr awdurdod o dan Adran 87 Deddf Plant 1989, ar wahân i'r rheiny wedi eu cofrestru fel cartrefi plant.

5.10 Ar gyfer y pedwar math cyntaf o sefydliad, mae'n ofynnol arolygu o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ond ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol arolygu'r 900 neu ragor o gartrefi bach i oedolion. Ar gyfer yr adolygiadau o ysgolion preswyl annibynnol heb eu cofrestru fel cartrefi plant, Roedd SSIW yn ceisio sefydlu faint o ysgolion oedd yn gweithredu, faint ddylai gael arolygiad ac a oedd yr adolygiadau hynny wedi digwydd.

5.11 Ar gyfer plant dan wyth oed, roeddem yn holi am ddau gategori o sefydliad gofal dydd:

- gofalwyr plant wedi cofrestru gyda'r awdurdod o dan Ran X Deddf Plant 1989
- darparwyr gofal dydd eraill wedi cofrestru gyda'r awdurdod o dan Ran X Deddf Plant 1989 – grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd fydd y rhan fwyaf o'r rhain.

5.12 Tynnir sylw isod at grynodedb o gasgliadau o'r ymarfer monitro.

5.13 Mae monitro gan SSIW ar gyfer 1999-2000 yn cadarnhau'r gwelliant parhaus wrth archwilio cartrefi ac ysgolion preswyl, a bod awdurdodau'n cyflawni'r dyletswyddau arolygu statudol sydd wedi eu gosod arnynt. Mae gwelliant sylweddol wedi ei gofnodi yn y ddwy flynedd diwethaf o ran arolygu gofal dydd i blant iau, er gwaethaf methiant ar raddfa eang i arolygu'r sefydliadau hyn mewn rhai rhannau o Gymru yn ystod dwy flynedd cyntaf y rhaglen

5.14 Fel y nodwyd uchod, bydd gwaith cofrestru ac arolygu ar ôl mis Ebrill 2002 yn un o swyddogaethau

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, yn annibynnol ar awdurdodau lleol. Mae'r Cynulliad eisoes wedi gwneud yn glir – yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999 – fod yn rhaid peidio â gweld unrhyw ostyngiad mewn gweithgarwch nac adnoddau yn y cyfamser. Caiff trefniadau eu gwneud i archwilio nad yw awdurdodau'n lleihau nifer y staff nac adnoddau eraill sy'n cael eu hymrwymo i'r maes gwaith hwn. Bydd SSIW yn parhau i fonitro gweithgarwch arolygu, ac i sicrhau fod y gwasanaethau a ddefnyddir gan blant ac oedolion sy'n agored i niwed yn parhau i gael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gwasanaethau i lant a Theuluoedd

6.1 Mae rhaglen ddatblygu SSIW ar gyfer gwasanaethau i blant a theuluoedd wedi ymrwymo i hybu datblygiad mewn gwasanaethau cymdeithasol i'r plant sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru a hynny i sicrhau bod gwelliannau'n parhau er mwyn eu galluogi i ddiogelu a hybu buddiannau plant. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio'n bennaf, er nad yn llwyr, ar ddiogelu plant a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Rhagwelwn y gall y rhaglen yn y dyfodol gael ei hystyngi i gynnwys canolbwyntio cryfach ar wasanaethau eraill.

Y cyd-destun polisi

6.2 Dylai diogelu a hybu lles plant fod yn nod i gynghorau wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant a'u teuluoedd. Dim ond drwy gydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat y gellir gwneud hynny. Mae ymrwymiad y Cynulliad i ddull strategol o ddelio â gwasanaethau plant yn cydnabod hyn ac mae'n ceisio sicrhau mwy o gydlynid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau rhwng asiantaethau.

6.3 Mae newidiadau sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd o fewn asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant. Er mai eu diben yw darparu gwelliannau, gallant hefyd gyfrannu at ansicrwydd a dryswch o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau. Mae gwaith llwyddiannus rhwng asiantaethau'n dibynnu ar eglurder ynglŷn â swyddogaeth a chyfrifoldebau pob asiantaeth a'r trefniadau ar gyfer bod

yn atebol mewn cysylltiad â'r gwaith a wnânt ar y cyd. Mae adolygiadau o achosion diogelu plant, yng Nghymru a mannau eraill, yn gyson wedi dangos sut y gall diffyg eglurder a chyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau gael effaith andwyol ar waith rhwng asiantaethau gyda phlant unigol. Rhaid i drefniadau o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau i fabwysiadu dull mwy cydlynol, felly, gynnwys ystyriaeth o'r manteision hyn a sicrhau bod systemau atebolrwydd yn bodoli, yn ddiamwys ac wedi eu dogfennu mewn ffyrdd y gall staff a'r cyhoedd droi atynt yn hwylus.

6.4 Mae gwaith datblygu mewn perthynas â gwasanaethau i blant a theuluoedd yn digwydd o fewn y cyd-destun cyffredinol o adolygiadau, cyd adolygiadau, Gwerth Gorau a rheoli perfformiad. Mae awdurdodau wedi croesawu ymrwymiad y Cynulliad i wasanaethau plant. Maent yn gofidio y gall anawsterau wrth recriwtio staff, sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, gael effaith andwyol ar gynnydd y datblygiad. Maent yn chwilio, ynghyd ag eraill sydd â diddordeb, am ffyrdd i ddelio â mater recriwtio a chadw gweithwyr ar sail strategol a chynaliadwy. Mae'r Cynulliad hefyd yn rhannu pryder, a rhoddir sylw manylach i hyn ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.



Ymchwiliad Tribiwnlys Cam-drin Plant yng Ngogledd Cymru

6.5 Mae SSIW wedi parhau i fuddsoddi cyfran fawr o'i adnoddau i ddatblygu gwasanaethau i blant a theuluoedd wrth ddelio â materion yn ymwneud â Thribiwnlys Gogledd Cymru. Mae llawer o'n gwaith wedi canolbwyntio ar weithio ar sail ddatblygiadol gyda'r chwe awdurdod yng Nghymru oedd yn rhan o'r Tribiwnlys gan ddelio â phynciau a oedd yn deillio o wybodaeth a roddwyd fel tystiolaeth. Diben y gwaith hwn oedd sicrhau bod pob cam cyfreithlon a rhesymol yn cael ei gymryd i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin, a bydd y gwaith yn parhau. Roedd SSIW hefyd yn rhan o'r Tribiwnlys, ac mae ychydig o'n gwaith wedi ymwneud â'r agwedd hon ar ein hymwneud. Yn ogystal, roedd SSIW yn gweithio gydag is-adrannau eraill y Cynulliad, yr Adran Iechyd ac asiantaethau eraill y llywodraeth i baratoi ar gyfer cyhoeddi adroddiad y Tribiwnlys a pharatoi'r ymateb i'r argymhellion wedyn.

6.6 Roedd yn amlwg, ymhell cyn i'r Tribiwnlys orffen gasglu tystiolaeth, fod angen i gyrff ac unigolion a oedd yn ymwneud â gofalu am blant arolygu'r dulliau diogelwch a oedd eisoes yn bodoli ac i sicrhau eu bod yn cymryd yr holl gamau cyfreithlon a rhesymol i ddiogelu plant rhag eu cam-drin ac i hybu eu lles. Comisiynodd y Swyddfa Gymreig dîm o dan gyfarwyddyd Adrienne Jones CBE i archwilio gweithdrefnau ac arferion gofal plant yng Ngogledd Cymru. Sefydlwyd rhaglen gyda chefnogaeth cronfa ddatblygu i gefnogi awdurdodau lleol wrth weithredu ei argymhellion. Gofynnodd y

llywodraeth i Syr William Utting wneud arolwg o ddulliau diogelu plant sy'n byw oddi cartref, a chyhoeddwyd ei adroddiad, *Pobl Fel Ni*, ym 1997.

6.7 Mae adroddiad y Tribiwnlys yn atgyfnerthu argymhellion Adrienne Jones a Syr William Utting ac mae'n darparu set gydlynol o argymhellion ar gyfer gweithredu strategol i sicrhau gwell dulliau diogelwch ac ansawdd gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'r rheiny'n cael eu harwyddo o dan Plant yn Gyntaf.

Plant yn Gyntaf

6.8 Lanswyd rhaglen Plant yn Gyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 1999 drwy Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 20/99. Ei nod yw trawsnewid rheoli a darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd mewn angen, gan gynnwys y rheiny sydd mewn gofal, a gwella bywydau plant drwy ddarparu gwasanaethau o safon sy'n ymateb i'w hanghenion ac anghenion eu teuluoedd. Mae'n disgwyl i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- atgyfnerthu eu systemau rheoli, proffesiynol a sicrwydd ansawdd i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o safon uchel
- dangos gwelliannau cyson mewn canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd mewn angen.

6.9 Dyma yw elfennau allweddol y rhaglen:

- amcanion Cymru gyfan a dangosyddion perfformiad cysylltiedig yn ymwneud â chanlyniadau clir i blant

Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

- targedau, wedi eu gosod naill ai ar draws Cymru gyfan neu yn lleol, yn erbyn pob un o'r dangosyddion. Mae rhai o'r targedau wedi eu gosod ar y cychwyn ac yn destun arolwg, ac mae eraill yn cael eu sefydlu wrth i'r rhaglen ddatblygu
- partneriaeth rhwng llywodraeth ganol a llywodraeth leol a chydweithio rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau ieuchyd
- swyddogaeth bwysig i aelodau etholedig i sicrhau darparu'r rhaglen

6.10 Mae amcanion y rhaglen ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn angen a'u teuluoedd yn sicrhau'r canlynol:

- bod plant mewn angen yn cael y buddiannau mwyaf o ran cyfle mewn bywyd o gyfleoedd addysg, gofal ieuchyd a gofal cymdeithasol
- bod plant mewn gofal yn cael y buddiannau mwyaf o ran cyfle mewn bywyd o gyfleoedd addysg, gofal ieuchyd a gofal cymdeithasol
- bod plant yn cael eu diogelu rhag cam-drin ac esgeulustra emosiynol, corfforol a rhywiol
- bod plant yn cael cysylltiad diogel â gofaluwr sy'n gallu darparu gofal diogel ac effeithiol
- na fydd pobl ifanc wrth adael gofal, ac wrth iddynt ddod yn oedolion, yn cael eu hynysu a'u bod yn gallu cymryd rhan yn gymdeithasol ac yn economaidd
- bod plant sydd ag anghenion cymdeithasol penodol oherwydd anabledd neu gyflwr ieuchyd yn byw gyda theuluoedd neu mewn lleoliadau priodol eraill yn y

gymuned lle caiff eu hanghenion asesiedig eu diwallu a'u harolygu'n briodol

- bod gweithdrefnau cyfeirio ac asesu yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau a lefelau o angen ac yn darparu ymateb amserol ac effeithiol gan wasanaethau
- bod adnoddau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar lefelau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian, gan ganiatáu ar gyfer dewis ac ymatebion gwahanol i anghenion ac amgylchiadau gwahanol.

6.11 Mae'r Cynulliad wedi dosbarthu adnoddau ychwanegol i helpu awdurdodau i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol, ac mae wedi darparu cyfarwyddyd i'w cynorthwyo wrth baratoi cynlluniau gweithredu rheolaeth Plant yn Gyntaf. Cyhoeddodd yr awdurdodau lleol eu cynlluniau gweithredu rheolaeth cyntaf gan osod allan sut y bwriadent weithredu'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn ystod 1999. Dangosodd gwerthusiad o'r cynlluniau eu bod yn amrywio o ran ansawdd, ac mae gwaith ar y gweill gydag awdurdodau i nodi sut y gellid atgyfnerthu cynlluniau yn y dyfodol i hybu gwelliannau ym mherfformiad awdurdodau lleol a sicrhau gwell canlyniadau i blant. Mae gwaith ar y gweill hefyd i sicrhau bod y rhaglen Plant yn Gyntaf, Gwerth Gorau a'r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol personol yng Nghymru yn ategu ei gilydd ac yn briodol gyson.

Amddiffyn Plant


6.12 Bu SSIW yn gweithio gyda'r Adran Iechyd ac adrannau eraill y llywodraeth i ddatblygu *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* a

Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd, ac mae'n ymwneud â lansio'r rhain a chefnogi eu gweithredu yng Nghymru. Mae SSIW hefyd yn cyfrannu at ddatblygu canllawiau newydd i ofyn cwestiynau ymchwilol i dystion sy'n agored i niwed ac a fydd yn disodli *Y Memorandwm Arfer Da*, ac at baratoi defnyddiau hyfforddi cysylltiedig.

6.13 Mae SSIW wedi parhau i gyfrannu at waith y Cynulliad a'r adroddiadau gan Arolygon Achosion gan Bwyllgorau Amddiffyn Plant Rhanbarthau wedi eu cynnal yn unol â Rhan VIII o Gweithio gyda'n Gilydd. Yn ystod 1999-2000, soniodd un ACPC wrth y Cynulliad ei fod yn bwriadu gwneud arolwg o'r fath, a derbyniodd y Cynulliad bum adroddiad am arolygon a oedd wedi cychwyn yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae'r fersiwn newydd o Gweithio gyda'n Gilydd yn cynnwys rhai diwygiadau sylweddol yn y cyfarwyddyd ar arolygon o'r fath, a

bydd ein rhaglen yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys gwaith datblygu pellach yn y maes hwn.

6.14 Mae'r Cynulliad yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau ar gyfer cofrestru amddiffyn plant yng Nghymru. Wrth ddadansoddi'r ystadegau ar gyfer 1999-2000 gwelwyd bod gostyngiad o 9% yn niferoedd y plant a oedd wedi eu cynnwys ar gofrestru amddiffyn plant. Roedd deuddeg y cant yn llai o blant wedi eu hychwanegu at y cofrestru nag yn y flwyddyn flaenorol, a nifer y plant a oedd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr wedi cynyddu 8%. Ychwanegwyd dros 40% o'r plant at y cofrestru plant mewn perygl o gael eu hesgeuluso, sef mwy nag mewn unrhyw gategori arall. Mae'r darlun ar draws yr awdurdodau'n amrywio, gan awgrymu bod arferion o ran arolygu achosion plant yn anghyson. Mae Ffigur 6.1 yn dangos sut mae newidiadau yn niferoedd y plant sydd ar gofrestru amddiffyn plant yn



amrywio rhwng awdurdodau. Mae'r amrywiad ym mhatrymau cofrestrï amddiffyn plant o ddiddordeb i ymarferwyr amddiffyn plant, rheolwyr a llunwyr polisi; a thrwy Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru mae SSIW wedi clustnodi arian o Gyllideb Datblygiad Pwyllgorau Amddiffyn Plant Rhanbarthau i brosiect ymchwil yn y maes hwn. Mae arian wedi ei glustnodi hefyd i dîm prosiect sy'n gwerthuso tri dull peilot a ddefnyddir i nodi a rheoli esgeulustra plant yng Ngogledd Cymru. Bydd y canlyniadau o'r naill brosiect a'r llall yn cael eu dosbarthu fel rhan o raglen y flwyddyn nesaf.

Ymchwiliadau cymhleth

6.15 Mae'r heddlu yn cynnal ymchwiliadau mawr yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr i gwynion bod oedolion a gyflogir i ofalu am blant mewn lleoliadau gofal wedi eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol. Mae nifer o'r achwynwyr yn oedolion a oedd yng ngofal awdurdodau lleol pan oeddent yn blant. Mae ymchwiliadau heddlu'n gofyn am gymorth awdurdodau a oedd yn gyfrifol am reoli sefydliadau lle gall troseddau fod wedi digwydd, ac mae'n debygol fod ganddynt gofnodion am blant unigol, personél a dogfennau eraill.

6.16 Mae awdurdodau yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio gan yr ymchwiliadau hyn wedi gwneud eu hymrwymiad yn glir i helpu'r heddlu gyda'u hymholiadau. Mae'r rheiny sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol wedi sefydlu, neu yn y broses o sefydlu, protocolau gyda'r heddlu a fydd yn gosod allan gweithdrefnau i helpu'r broses o reoli ceisiadau am gael gweld gwybodaeth a gedwir mewn cofnodion gwasanaethau cymdeithasol.

6.17 Cydnabyddir yn barod iawn gymhlethdod ymchwiliadau o'r fath, boed mewn cysylltiad â digwyddiadau diweddar neu rai cynharach. Ym mis Chwefror 2000, cyhoeddodd y Cynulliad *Cyfarwyddyd Ymarfer i Ymchwilio i Honiadau o Gam-drin yn erbyn Gweithiwr Proffesiynol neu Ofalwr mewn perthynas â Phlant mewn Gofal*.

6.18 Mae SSIW yn parhau i gysylltu ag awdurdodau lleol am y materion sy'n rhan o ymchwiliadau cymhleth, a bydd yn galw seminar rhwng asiantaethau i arolygu datblygiadau a nodi arfer gorau. Bydd hyn yn llywio gwaith sydd i ddigwydd mewn ymateb i argymhellion Waterhouse.

System Plant sy'n derbyn Gofal (LAC) a'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd

6.19 Mae SSIW yn parhau i hybu'r system Plant sy'n derbyn Gofal (LAC) fel rhan o'i raglen ddatblygu. Gwelodd archwiliad o weithredu'r system fod awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd amrywiol a bod angen gwaith pellach i sicrhau defnyddio'r system yn llawn. At hynny, un o'r gwersi o'r cyd-arolygon cyntaf o awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yw fod angen i ni sicrhau gwelliannau yn ansawdd asesu a rheoli gofal. Mae SSIW yn cyfrannu at arolwg o'r system LAC i sicrhau bod y system yn datblygu fel rhan o ddull integredig, cydlynol a chydgyssylltiol o asesu, cynllunio ac arolygu ar gyfer plant mewn angen. Mae'r arolwg yn cynnwys ystyriaeth o ddarganfyddiadau ymchwil a mentrau cysylltiedig, yn enwedig y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.

Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

Rhoi mwy o ddewis o ran lleoliad a gwella sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal

6.20 Mae dewis lleoliad a sefydlogrwydd lleoliadau i blant mewn gofal wedi eu nodi fel ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant i ddiwallu anghenion plant ac i sicrhau canlyniadau da.


6.21 Er bod cyfran a nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio, (mae Ffigur 6.2 yn rhoi'r darlun ar 31 Mawrth 2000), mae'n annhebygol bod unrhyw awdurdod ar ei ben ei hun yn gallu datblygu a chynnal

amrywiaeth o leoliadau sy'n gallu i ddiwallu anghenion yr holl blant mae'n gofalu amdanynt.

Argymhellodd Adrienne Jones y dylai awdurdodau gydweithio gyda darparwyr eraill, o'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Argymhellodd hefyd y dylai awdurdodau gynllunio ar y sail y byddant rywbyrd neu gilydd yn trefnu lleoliadau mewn cyfleusterau allanol drud ac y dylai ariannu lleoliadau felly fod yn flaenoriaeth gorfforaethol os na ellir gwneud hynny drwy'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

6.22 Mae gwaith SSIW i gynyddu dewis a gwella sefydlogrwydd

Ffigur 6.2: Plant yn derbyn gofal yr awdurdodau lleol yng Nghymru - cyfradd y 1,000 o blant 0-17 oed: 1999



Ileoliadau wedi cynnwys arolwg o leoliadau o blant sydd yng ngofal awdurdodau lleol, a gomisiynwyd gan Brifysgol Caerdydd. Dosbarthodd SSIW y canfyddiadau drwy ddsbarthu adroddiad yr arolwg a chynnal gweithdy i reolwyr allweddol mewn gwasanaethau plant. Bydd y canfyddiadau hefyd yn llywio gwaith pellach, sydd wedi ei drefnu fel rhan o raglen y flwyddyn nesaf, i ymateb i argymhellion Utting, Adrianne Jones a Waterhouse. Y nod yw dod ag awdurdodau ynghyd i ystyried sut y gallai strategaethau lleoli gael eu datblygu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu troi at ystod eang o leoliadau sy'n eu galluogi i roi mwy o ddewis a sefydlogrwydd lleoliadau i blant a phobl ifanc.

6.23 Mae anghenion rhai plant sydd wedi a aseswyd mor gymhleth fel bod eu diwallu'n gofyn am gynllunio manwl rhwng asiantaethau, darparu ac arolygu gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol, y GIG a darparwyr lleoliadau mewn sectorau eraill. Mae awdurdodau'n sôn bod lleoliadau sy'n gallu diwallu anghenion cymhleth a lluosog rhai plant yn gyfyngedig yn gyffredinol o ran nifer, wedi eu dosbarthu rhwng sectorau ac yn debygol o fod gryn bellter o ardal cartref y plentyn. At hynny, mae awdurdodau'n dweud y gall y dasg o ddod o hyd i leoliadau o'r fath fod yn anodd a chymryd llawer o amser. Bydd y gwaith o gynyddu dewis a gwella sefydlogrwydd lleoliadau'n cynnwys ystyriaeth benodol o'r materion hyn.

Llety diogel

6.24 Ni all plant dan 13 oed gael eu gosod mewn llety diogel mewn cartref cymunedol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y

Cynulliad Cenedlaethol (Ysgrifennydd Gwladol Cymru gynt) i leoli'r plentyn hwnnw. Mae SSIW yn darparu cyngor ar geisiadau awdurdodau lleol am gymeradwyo lleoliadau o'r fath. Er mai ychydig o geisiadau a geir – llai na phump bob blwyddyn er mis Ebrill 1996 – mae amgylchiadau ac anghenion y plant dan sylw yn ddieithriad yn gymhleth ac yn fater o frys.

6.25 Mae awdurdodau sydd wedi gwneud ceisiadau yn y gorffennol wedi adolygu'r broses o reoli achosion y plant dan sylw ar gais SSIW. Mae'r adolygiadau wedi dangos bod y plant yn gyffredinol yn cael gwasanaethau i blant mewn angen ers cryn amser cyn i'r awdurdod lleol ddechrau ystyried y gallai lleoliad diogel fod yn angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Mae eu hanghenion asesiedig wedi bod yn arbennig o gymhleth, ac mae cynllunio gofal rhwng asiantaethau ac adolygiad yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Mae rheoli cynllunio gofal i'r rhain ac i blant eraill sy'n cael eu gosod mewn llety diogel yn gorfod ystyried anghenion y plentyn ac effaith andwyol bosibl lleoliadau o'r fath. Cymhlethir materion ymhellach gan y ffaith mai ychydig gyfle sydd gan awdurdodau lleol, gan fod ceisiadau felly'n digwydd mor anaml, i ddatblygu arbenigedd wrth gydlynw asesiad a chynllunio gofal o dan amgylchiadau felly. Mae'r rhaglen ddatblygu ar gyfer 1999-2001 yn cynnwys gwaith gyda grŵp o awdurdodau i nodi pynciau allweddol mewn amgylchiadau o'r fath ac i ddatblygu canllawiau drafft i'w defnyddio gan awdurdodau lleol.

6.26 Mae nifer o awdurdodau wedi mynegi pryder am effaith cau

Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

Canolfan Trin Ieuencid Glenthorne a phrynu lleoliadau gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn yr ystâd ddiogel ar ddarpariaeth lleoliadau i blant sydd angen lleoliadau diogel ar sail ystyriaethau lles. Bydd darparu lleoliadau diogel i blant yng Nghymru yn dal i gael sylw ac yn cael ystyriaeth yn y gwaith datblygu ar gynyddu'r dewis o leoliadau.

Gwasanaethau mabwysiadu a maeth

6.27 Mae'r Cynulliad yn adolygu safle mabwysiadu yn y gwaith o ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal. Roedd adolygiad gan Uned Polisi a Datblygiadau newydd Swyddfa'r Cabinet yn tynnu sylw at yr angen am ystyried y fframwaith polisi, ymarfer a deddfwriaethol sy'n ymwneud â mabwysiadu os yw i gael ei hyrwyddo'n effeithiol fel dewis lleoliad i ofalu am blant. Mae SSIW yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth am y graddau y caiff mabwysiadu ei ystyried fel dewis wrth gynllunio gofal i blant, pryd y caiff ei ystyried a'r amserlenni dan sylw. Cyn dechrau'r gwaith hwn, dosbarthodd SSIW y canfyddiadau a phrif negesau ar gyfer datblygu ymarfer o gyfres o astudiaethau ymchwil ar fabwysiadu, a oedd yn cynnwys *Mabwysiadu Nawr* i awdurdodau lleol.

6.28 Mae Safonau Cenedlaethol a chod ymarfer ar gyfer gofal maeth wedi eu lansio yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhaglen ddatblygu yn mynd ymlaen â'r gwaith ar gadw a recriwtio gofawyr maeth ac ar weithredu'r safonau a'r cod ymarfer.

Plant sy'n gadael gofal

6.29 Mae'r Cynulliad yn ymgynghori ar newidiadau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000, gan gynnwys cefnogaeth ariannol i adawyr gofal, cyflwyno swyddogaeth y Cynghorydd Personau Ifanc a chynnwys y Cynlluniau Pathway newydd. Bydd y rhaglen ddatblygu am y flwyddyn i ddod yn ystyried y newidiadau hyn.

Gwasanaethau eiriolaeth i blant

6.30 Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cefnogi amrywiaeth o gynlluniau eiriolaeth, gan ddarparu bron £208,000 ar gyfer 2000-1, ac efallai y bydd yn cefnogi cynlluniau lleol gan awdurdodau lleol..

6.31 Cafodd canlyniad y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Caerdydd eu dosbarthu ym mis Rhagfyr 1999. Gwelwyd nad yw patrwm darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal yn gyson rhwng awdurdodau. Mae angen i broses ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth ystyried canfyddiadau'r gwaith ymchwil, argymhellion *Ar Goll mewn Gofal*, sefydlu swyddogaeth y Comisiynydd Plant, a'r cynigion i wella'r gweithdrefnau cwyno.

Strategaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc

6.32 Mae SSIW ac awdurdodau lleol yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth y Cynulliad ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod cyfraniad personél gwasanaethau cymdeithasol mewn hyrwyddo iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn nodi rhai grwpiau blaenoriaeth sy'n cynnwys

plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn gwasanaethau amddiffyn plant.

Cyfiawnder Ieuenctid

6.33 Sefydlwyd Timau Troseddau Ieuenctid (YOT) i gynnwys pob rhan o Gymru Mewn rhai enghreifftiau, mae awdurdodau wedi cydweithio er mwyn i'r tîm gynnwys mwy nag un awdurdod lleol, ac mae yna 16 o dimau i gyd. Mae SSIW wedi sefydlu cyswllt gyda phob un o'r timau ac mae ganddo ddiddordeb datblygol mewn ymarfer cyfiawnder ieuenctid ac wrth hybu arferion gweithio clir ac adeiladol rhwng YOTau a gwasanaethau eraill i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r rheiny'n cynnwys gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant anabl ac amddiffyn plant. Mae gwaith SSIW yn y maes hwn yn cymryd i ystyriaeth swyddogaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a NACRO yn ogystal ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n aelodau o YOTau.

Gwasanaethau gwarcheidwad ad litem a swyddogion adrodd

6.34 Mae rhaglen ddatblygu SSIW yn cyfrannu at gostau hyfforddiant cynefino i aelodau o baneli gwarchodwyr ad litem a swyddogion adrodd sydd newydd eu penodi, a thalodd y Cynulliad Cenedlaethol am hyfforddiant i warcheidwaid yn ystod 1999 er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd*. O 1 Ebrill 2000, bydd awdurdodau lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gwarcheidwaid ad litem a swyddogion adrodd, a fydd yn dod yn rhan o Wasanaethau Cyngori a Chefnogi y Llys Plant a Theulu a ddarperir drwy Adran yr Arglwydd Ganghellor. Bydd angen cysylltiadau parhaus gyda'r gwasanaethau hyn i sicrhau eu bod yn cael gwybod am newidiadau mewn polisi gwasanaethau cymdeithasol a datblygiadau ymarfer mewn gwasanaethau plant yng Nghymru yn ogystal ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth eilaidd.

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

Cyd-destun polisi

7.1 Mae gwasanaethau cymdeithasol i oedolion sy'n agored i niwed yn ceisio hybu'r annibyniaeth a'r integreiddio mwyaf posibl yn eu cymuned. Gall hyn fod yn rhan o'r agenda i ddelio ag eithrio cymdeithasol, ac i hybu a chynnal iechyd a phatrymau byw normal lle bynnag y bydd yn bosibl. Mae gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ran bwysig yn y gwaith o wneud hyn, ond mae hybu annibyniaeth yn gyfrifoldeb maent yn ei rannu gyda'r awdurdod lleol yn ei gyfarwydd a chydag asiantaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau iechyd.

Gweithio mewn partneriaeth

7.2 Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gosod fel blaenoriaeth yr angen am adeiladu a gwella ar y trefniadau cydweithio sydd eisoes yn bodoli rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae yna amrywiaeth o ffyrdd i hybu'r gweithio agosach hwn:

Mwy o hyblygrwydd

7.3 Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwmo i ddatblygu trefniadau partneriaeth newydd rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n cael eu hannog i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau o safon fel rhan o'r hyblygrwydd newydd o dan y Ddeddf Iechyd 1999.

7.4 Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ym mis Tachwedd ar y trefniadau gwell i



drosglwyddo arian rhwng asiantaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

- cyllidebau wedi eu crynhoi
- comisiynu drwy arwain
- darpariaeth integredig.

Y GIG a'r awdurdodau lleol, drwy weithio gyda phartneriaid eraill, fydd yn penderfynu'n lleol ar y meysydd lle gallai cydweithio agosach fod yn gynhyrchiol. Mae'n ymddangos y gall y dewisiadau hyn gael eu harchwilio yn y lle cyntaf, er enghraifft, ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, lle mae angen gweithio cydweithredol dros gyfnod hir. Gall cynlluniau fod yn rhai mawr yn cynnwys ardaloedd cyfan o grwpiau cleientiaid, neu'n brosiectau penodol ar raddfa fach.

Siarter newydd

7.5 Mae'r Cynulliad hefyd yn datblygu siarter newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ymarfer ymgynghori mawr ar y gweill i sicrhau bod y siarter newydd yn pennu'n union beth mae pobl yn ei ddisgwyl o'u gwasanaethau – ac mae iddo sail

ymarferol gadarn. Caiff siarter genedlaethol ei chyhoeddi erbyn mis Ebrill 2001 a bydd yn caniatáu i gymunedau fonitro pa mor dda mae anghenion cyffredinol cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu diwallu. Ar yr un pryd, bydd siarteri lleol yn cael eu llunio i ddelio â blaenoriaethau lleol.

7.6 Cafodd ymateb y Llywodraeth i'r Comisiwn Brenhinol ar ofal dros gyfnod hir ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2000. Roedd hwn yn atgyfnerthu'r bwriad y dylid canolbwyntio'n fwy ar gynnal a hybu annibyniaeth drwy gymhellion i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig gwell. Roedd hwn hefyd yn cynnwys cynigion i ddarparu gofal nyrsio yn rhad ac am ddim ym mhob lleoliad, a newidiadau eraill yn y ffordd o ariannu gofal dros gyfnod hir, yn ogystal â gwella mynediad i wasanaethau ac asesiad ar eu cyfer. Yng Nghymru, mae ystyriaeth yn dal i gael ei rhoi i'r ffordd orau i weithredu'r cynigion hyn i fod yn addas i'r amgylchiadau yma.

Delio â phwysau argyfwng

7.7 Mae datrys y pwysau ar welyau ysbytai yn un o flaenoriaethau'r Cynulliad. Mae'r pwysau hyn yn digwydd nid yn unig yn y gaeaf, ond gallant ddigwydd hefyd, er enghraifft, yn ystod cyfnodau gwyliau. Felly, mae'n bwysig i atebion i'r problemau hyn fod yn rhan integredig o reolaeth. Er mwyn cael dulliau newydd o ddelio â'r broblem hon, sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol Dasglu Pwysau Argyfwng o blith amrywiaeth eang o fuddiannau. Casgliad allweddol y Tasglu oedd pwysigrwydd hanfodol deall y ffyrdd y caiff penderfyniadau eu gwneud

mewn un rhan o'r system gan ddylanwadu ar y ffordd y bydd pethau'n digwydd yn y rhannau eraill. Dyna pam mae cydgynllunio, cyfathrebu da ar draws a rhwng asiantaethau, a dealltwriaeth glir o swyddogaeth a chyfrifoldebau pob asiantaeth mor bwysig.

7.8 I helpu hyn, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sy'n manylu ar y cyfraniad y disgwylir i bob asiantaeth ei wneud. Bydd y Cynulliad hefyd yn sefydlu tudalen ar y we i restru mentrau ac enghreifftiau o arfer da wrth reoli pwysau argyfwng. Mae SSIW wedi casglu a chyhoeddi enghreifftiau o arfer da a gaiff eu cynnwys ar y dudalen ar y we.

7.9 Eleni, mae £40 miliwn yn ychwanegol wedi ei ddarparu i gefnogi'r GIG a'i bartneriaid i wella'r broses o reoli derbyniadau argyfwng ac i ddelio â rhestrau ac amserau aros mewn ysbytai. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau camu i lawr, timau ymateb cyflym a mentrau eraill i atal gorfod mynd i'r ysbyty ac i hwyluso rhyddhau.

Gofalwyr

7.10 Cydnabyddir yn helaeth gyfraniad hanfodol gofalwyr at les nifer o bobl sâl a bregus ledled Cymru. Eleni, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymryd dau gam pwysig i wella iechyd a lles gofalwyr ac, o ganlyniad, lles y rhai maent yn gofalu amdanynt. Darparwyd grant arbennig o £3 miliwn o arian ychwanegol i awdurdodau lleol i alluogi mwy o ofalwyr i gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu, a lansiwyd *Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr yng Nghymru*. Mae hwn yn ceisio gwireddu Strategaeth *Gofalu*

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

am Ofalwyr y Deyrnas Unedig drwy ei droi'n gamau gweithredu ymarferol cadarn sy'n gwella bywydau tua 350,000 o ofalwyr yng Nghymru. Bydd y Cynulliad yn adolygu'r strategaeth bob blwyddyn gyda chymorth gofalwyr a'u sefydliadau, llywodraeth leol, awdurdodau iechyd a grwpiau eraill sydd â diddordeb. Nid yw gofalwyr mwyach ar ymylon y ffordd y rhoir sylw i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd eu hanghenion yn dod yn rhan o bolisiâu a rhaglenni'r Cynulliad.

7.11 Bydd deddfwriaeth eilaidd yn cael ei chreu yng Nghymru i lunio darpariaethau Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ehangu taliadau uniongyrchol i gynnwys gofalwyr (yn ogystal â phlant anabl) o fewn taliadau uniongyrchol. Dylid rhoi hwb pellach i hyn i fanteisio ar daliadau uniongyrchol yng Nghymru.

Y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir

7.12 Ym mis Gorffennaf 2000, ymatebodd y Llywodraeth i'r cynigion gan y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir, fel y dywedwyd yn gynharach. Roedd hwn yn cynnig pecyn o gamau i ymateb i argymhellion yr adroddiad, gan gynnwys:

- mynediad cyflymach i ofal gan gynnwys un fframwaith asesu i bobl hŷn
- gofal nyrsio am ddim mewn cartrefi nyrsio
- mesurau i helpu pobl dalu am gostau gofal
- trefniadau tecach i dalu a chodi

tâl am ofal ym mhob lleoliad, gan gynnwys gofal amhreswyl.

7.13 Mae codi tâl am ofal amhreswyl wedi bod yn bwnc llosg yng Nghymru, gan fod awdurdodau lleol yn gweithredu polisïau gwahanol. Erbyn hyn, mae pob awdurdodau lleol yng Nghymru yn codi tâl am ofal amhreswyl - cyflwynwyd yr olaf eleni. Mae dulliau asesu ariannol yn amrywio'n helaeth, gan olygu bod pobl ag angen tebyg yn talu symiau gwahanol iawn am yr un gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn Archwilio wedi gwneud astudiaeth *Codi Tâl Gyda Gofal* a oedd yn ystyried y pwnc hwn ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r adroddiad yn argymhell y gallai'r Llywodraeth helpu lleihau amrywiadau annerbyniol mewn taliadau drwy baratoi cyfarwyddyd.

7.14 Mae'r Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi grym i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i gynghorau ar y ffordd y gallant godi tâl am ofal cymdeithasol amhreswyl. Bydd hyn yn cyfyngu ar ryddid cynghorau ac yn delio â'r amrywiad helaeth mewn taliadau ar hyd a lled Cymru. Bydd y Cynulliad yn ystyried cyhoeddi cyfarwyddyd fel rhan o'i waith ar bobl hŷn a gofal tymor hir.

Gwasanaethau gofal yn y gymuned i oedolion: y darlun cyffredinol


7.15 Mae'r tablau a'r ffigurau isod yn rhoi cyd-destun a darlun cyffredinol o'r prif agweddau ar wasanaethau i oedolion. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae dros 100,000 o asesiadau wedi eu gwneud am wasanaethau gofal cymunedol i

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion


oedolion (Ffigur 7.1). Mae hwn yn gynnydd sylweddol ar y 60,000 o asesiadau a wnaed ar ôl diwygio gofal yn y gymuned ym 1993. Foddbynnag, mae'n ymddangos bod awdurdodau'n defnyddio meini prawf cymhwyster llym a bod cyfran lai o bobl yn derbyn gwasanaethau ar ôl

eu hasesu. Mae hyn yn arbennig o wir am wasanaethau yn y cartref lle gwelwyd gostyngiad pellach eleni yn lefelau'r gwasanaeth a'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau (Tablau 7.1 a 7.2).

Ffigur 7.1: Cyfanswm asesiadau, 1993/94 - 1999/2000, yn cynnwys canlyniadau



Ffigur 7.2: Patrwm y ddarpariaeth ar gyfer yr holl Gartrefi Preswyl, 1993 - 1999



Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

Tabl 7.1 Patrwm darpariaeth ar gyfer gwasanaethau yn y cartref, cyfanswm oriau bob blwyddyn.

Darpariaeth gofal yn y cartref	Darperir gan awdurdod lleol	Darperir gan y sector annibynnol	Cyfanswm
1996-7	10.6 million	2.1 million	12.7 million
1997-8	9.3 million	2.2 million	11.5 million
1998-9	8.3 million	3.1 million	11.4 million

Tabl 7.2 Nifer teuluoedd a gafodd gymorth yn ystod y flwyddyn

Blwyddyn	Nifer teuluoedd
1992-3	59,695
1993-4	60,625
1996-7	41,195
1997-8	39,178
1998-9	38,361

7.16 Mae awdurdodau lleol nawr yn cynnal 70% o bobl mewn cartrefi preswyl (Ffigur 7.2). Cafwyd gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu cynnal gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol drwy hawliau diogel. Yn sgil cyhoeddiadau am ofal tymor hir, bwriedir trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros yr hawliau diogel i awdurdodau lleol o fis Ebrill 2002.

Pobl hŷn

7.17 Mae cydweithio effeithiol rhwng sectorau gofal iechyd sylfaenol a dwys, gwasanaethau iechyd yn y gymuned, gwasanaethau cymdeithasol a thai yn dod â gwelliannau i ansawdd bywyd bobl hŷn. Mae pobl hŷn, yn briodol, yn datblygu llais cryfach wrth fynnu y bydd systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu helpu i barhau'n iach ac i fod yn annibynnol, i ddarparu cefnogaeth briodol pan fydd ei angen, a'u bod hwy a'u

gofalwyr i gael eu trin yn deg a'u hystyried fel partneriaid cyfartal. Dylai'r Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru sydd i gael ei gyhoeddi osod fframwaith ar gyfer sicrhau hyn.

7.18 Ar hyn o bryd, mae 20% o'r boblogaeth dros 60 oed. Erbyn 2020, bydd gan y Deyrnas Gyfunol y canran uchaf o bobl dros 60 oed yn yr Undeb Ewropeaidd i gyd, ac erbyn 2025 disgwylir y bydd nifer y bobl 80 oed a hŷn i fod tua hanner cant y cant yn uwch nag ar hyn o bryd. Yn ystod yr un cyfnod, disgwylir i'r bobl 90 oed neu hŷn fod wedi dyblu. Mewn llawer ffordd, mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau mewn iechyd a gofal cyhoeddus; ond mae darparu'n briodol ar gyfer ein poblogaeth hŷn yn her anferth. Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen cael dull strategol a chynllunio dros dymor hir.

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

7.19 Mae Gweinidog y Cynulliad wedi cyhoeddi'r bwriad i sefydlu dull strategol o'r fath, ac mae'n sefydlu grŵp ar lefel uchel i helpu i gyflawni hynny. Ynghyd â'r ymateb i'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir, dylai hyn ddarparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn a fydd yn datblygu yn y flwyddyn i ddod.

Pobl ag anableddau corffol a synhwyrol

7.20 Dechreuodd y Comisiwn Hawliau Anabledd weithredu ym mis Ebrill 2000 ac fe agorwyd swyddfa ranbarthol yng Nghaerdydd. Ymgynghorwyd â'r Cynulliad wrth benodi'r Comisiynydd a fydd â diddordeb arbennig mewn materion anabledd yng Nghymru.

7.21 At hynny, mae anghenion pobl â nam ar y synhwyrau (byddar/dall) wedi cael sylw drwy Fesur Preifat a gafodd ei gyflwyno, ond nid ei hybu, gan Jack Ashley AS. Rydym wedi cyfrannu at weithgor gan yr Adran Iechyd a gynhwysai gynrychiolwyr y sectorau statudol a gwirfoddol, i geisio codi proffil y grŵp bach ond pwysig hwn. Mae cyfarwyddyd yn debygol o gael ei gyhoeddi'n fuan.

Iechyd meddwl

7.22 Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn faes blaenoriaeth i'r Cynulliad. Mae'r strategaeth gyfredol mewn bodolaeth er 1989, ac ar ôl ymarfer ymgynghori helaeth y llynedd, sefydlodd y Cynulliad grŵp i gynrychioli defnyddwyr, gofalmwr a gweithwyr proffesiynol i gynghori ar strategaethau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a fydd yn gosod cyfeiriad y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Cafodd cynigion y grŵp

cynghori eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ystod yr haf, a chaiff y strategaeth derfynol ei chyhoeddi y flwyddyn nesaf. Dyma'r prif egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth:

- tegwch
- galluogi
- effeithiolrwydd
- effeithlonrwydd

a gobeithir, drwy weithredu'r strategaeth, y cymerir camau pellach tuag at ddileu annhegwch mynediad i wasanaethau a thuag at welliant parhaus mewn safonau mewn gofal iechyd meddwl ledled Cymru. Ar ôl llunio'r strategaeth yn derfynol, bydd yn darparu'r cefndir strategol ar gyfer datblygu Fframwaith Gwasanaeth cenedlaethol i Gymru ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd anghenion pobl hŷn sydd â phroblemau iechyd meddwl yn parhau i gael eu hystyried o fewn fframwaith i bobl hŷn.

7.23 Bydd angen i'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r arolygiad o wasanaethau iechyd meddwl eleni gael eu dwyn ymlaen drwy'r rhaglen ddatblygu. Mae'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwr allu dibynnu ar safonau gwasanaeth cyson ledled Cymru.

7.24 Mae'r Cynulliad yn gweithio gydag awdurdodau iechyd i wella a moderneiddio'r cyfleusterau ar gyfer cleifion iechyd meddwl; er enghraifft, mae hen gyfleusterau ysbyty ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin wedi cau. Mae'r camau hyn yn atgyfnerthu swyddogaeth hanfodol gwasanaethau cymunedol mewn gofal am bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, a'r angen am gynllunio effeithiol a

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

darparu ar draws y sectorau a'r asiantaethau statudol.

Pobl ag anableddau dysgu

7.25 Mae Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru, a lansiwyd ym 1983 a'i diweddarau ym 1994, yn parhau i lywio'r ddarpariaeth gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Ar ddiwedd 1999, sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol Grŵp Ymgynghorol Allanol ar Anableddau Dysgu i ddrafftio fframwaith gwasanaethau. Y nod yw i'r fframwaith hwn a'r cyfarwyddyd a fwriedir gydag ef helpu wrth ddatblygu darpariaeth decach o wasanaethau a mynediad ledled Cymru.

7.26 Daw aelodau'r Grŵp yn eang o asiantaethau statudol a chyrrff gwirfoddol. I'w helpu yn eu gwaith, mae'r Grŵp Ymgynghorol wedi sefydlu nifer o grwpiau canolbwytio/ymgynghori ar hyd a lled Cymru, sy'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr. Disgwylir i'r Grŵp Ymgynghorol anfon adroddiad terfynol at y Cynulliad Cenedlaethol tua diwedd y flwyddyn hon, ac wedyn bydd ymgynghori eang am gynigion y Grŵp Ymgynghorol. Mae gwaith yn dal i fynd ymlaen, ond daeth yn amlwg ein bod yn dal i wynebu ambell her anferth:

- mae disgwyliadau darpariaeth gwasanaeth pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd a'u gofawyr wedi cynyddu gyda'r blynyddoedd
- newid demograffig: sonnir bod cynnydd o 16% wedi digwydd yn nifer y bobl ar gofrestri awdurdodau lleol o bobl ag anableddau dysgu rhwng 1990 a

1998. Y cyfanswm yng Nghymru ym 1998 oedd 11,800. Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu difrifol rhwng 35 a 64 oed yn cynyddu'n sylweddol, ac yn y degawd diwethaf gwelwyd dyblu yn nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed

- mwy o alw, oherwydd ffactorau demograffig a natur y ddarpariaeth angenrheidiol sy'n newid er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ac yn annibynnol
- diffyg gwybodaeth rheoli defnyddiol a manwl i seilio cynlluniau'r dyfodol arni. Mae'r grŵp cynghori wedi argymhell y dylid comisiynu ymchwilyr i gael gwybodaeth sylfaen, yn gysylltiedig â datblygiadau rheoli perfformiad.

7.27 Ym mis Mawrth 2000, roedd 366 o bobl ag anableddau dysgu mewn ysbytai cyfnod hir. Mae cynlluniau ar y gweill nawr i gwblhau'r ailsefydlu o Lanfrechfa Grange a dechreuwyd ailsefydlu pobl o Frynneuadd. Mae'r polisi cynhwysiad cymdeithasol a'r ddeddfwriaeth hawliau dynol mewn llawer ffordd yn cefnogi egwyddorion y Strategaeth Anfantais Feddyliol ac yn ei gwneud yn bwysicach fyth i gael dulliau cynnal cymunedol hyblyg, ymatebol a chynhwysol i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael rhan mor llawn ag sy'n bosibl iddynt yn eu cymunedau. Mae cyhoeddiadau cyllideb yn ddiweddar yn caniatáu ar gyfer cwblhau'r rhaglen lawn o ailsefydlu o ysbytai.

Camddefnyddio sylweddau

7.28 Ym mis Mai 1999, crëwyd Panel Ymgynghorol newydd ar Gamddefnyddio Sylweddau ar gyfer

un flwyddyn i ddechrau. Roedd y Panel hwn yn dwyn ynghyd Gadeiryddion Timau Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru, a grŵp o arbenigwyr i gynnwys y meysydd arbenigedd allweddol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Prif dasg y Panel oedd cynghori am ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd i Gymru ar gamddefnyddio sylweddau.

7.29 Mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio nid yn unig ar y defnyddwyr, ond hefyd ar deuluoedd yn y cartref, a gall effeithio ar y rheiny'n gorfforol, yn emosiynol ac yn ariannol, ar eu plant ac ar y gymuned gyfan. Mae'r angen am ddelio â chanlyniadau camddefnyddio sylweddau mor hanfodol â delio â'r camddefnyddio ei hun, ac mae gan y gwasanaethau cymdeithasol, yr awdurdodau lleol ehangach a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i gyd ran bwysig yn y gwaith hwn ochr yn ochr â'r gwasanaeth iechyd a'r heddlu.

7.30 Lanswyd y strategaeth newydd *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Dull Partneriaeth* ym mis Mai 2000. Croesawyd hwn gan yr asiantaethau lleol gan ei fod yn llenwi bwlch cynllunio am eu gwasanaethau. Mae'r strategaeth yn cwmpasu pedwar nod allweddol strategaeth y Deyrnas Gyfunol ar gyfer atal cyffuriau. Mae hefyd yn cwmpasu pedwar amcan allweddol y Deyrnas Gyfunol sy'n darparu sail i fonitro a gwerthuso cynnydd cyffredinol y strategaeth, ac amcanion sy'n berthnasol i Gymru wedi eu hychwanegu atynt. Caiff y strategaeth ymchwil a gwybodaeth ei datblygu yn y flwyddyn i ddod i gefnogi gweithredu'r strategaeth, a bydd gofynion ymchwil a gwybodaeth

yn cael eu hasesu'n rheolaidd yn erbyn nodau, amcanion a thargedau'r strategaeth. Bydd *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Dull Partneriaeth* yn para tan fis Mawrth 2008, i gyd-fynd ag amserlen strategaeth y Deyrnas Gyfunol.

7.31 Yn ogystal â'r strategaeth ymchwil a gwybodaeth, bydd y flwyddyn i ddod yn gweithredu strategaeth newydd gan y Timau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol. Bydd trefniadau cenedlaethol newydd yn cael eu sefydlu hefyd i gefnogi a chynghori ar ddarparu'r strategaeth.

7.32 Darparwyd arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau triniaeth. Roedd hyn yn annog newydd-deb a chomisiynu partneriaeth ac yn galluogi datblygu rhywfaint o weithio mewn partneriaeth gyda thimau troseddau ieuenctid. Un pryder gan yr asiantaethau yw cydbwysu'r galwadau am wasanaethau a datblygu gwasanaethau rhwng y rheiny sy'n deillio o'r agenda cyfiawnder troseddol, yn enwedig o orchmynion profion a thriniaeth cyffuriau, a galwadau a nodir drwy ddulliau clinigol. Mae mynediad i wasanaethau i'r rheiny sydd â diagnosis dwbl yn parhau i beri pryder. Cydnabyddir bod y grŵp hwn yn agored i niwed yn nrafft y Strategaeth Iechyd Meddwl, a chynigir gwella cysylltiadau rhwng y gwasanaethau perthnasol.

7.33 Rhwng chwe mis olaf mis Medi 1993 a chwe mis olaf Medi 1999 gwelwyd cynnydd o 53% yn nifer y defnyddwyr y dywedwyd eu bod yn dechrau ar gyfnodau gydag asiantaethau, a gwelwyd y cyfnod

Gofal yn y Gymuned: Gwasanaethau i Oedolion

mwyaf o gynnydd bryd hynny rhwng y cyfnodau'n diweddu ar 31 Mawrth a 30 Medi 1999 (31%). Y cyffur a ddefnyddid fwyaf oedd heroin (36% o'r defnyddwyr), ac amffetaminau'n ail uchaf (22%) a chanabis yn drydydd (12%). Gall ychydig amrywiaeth yn y niferoedd ddeillio o newidiadau a gwelliannau mewn arferion rhoi gwybod, ond mae'r ffigurau'n arwydd o bwysigrwydd camau i gydnabod problemau camddefnyddio sylweddau ac i ddelio â hwy.

Amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed

7.34 Ym mis Medi lansiodd Gweinidog y Cynulliad Mewn Dwylo Diogel, sef cyfarwyddyd gan SSIW ar amddiffyn oedolion yng Nghymru sy'n agored i niwed. Nod y cyfarwyddyd hwn yw cael dull cyson gan asiantaethau perthnasol ledled Cymru wrth atal, ymchwilio a thrin achosion o gam-drin. Ers cyhoeddi

drafft y cyfarwyddyd y llynedd, mae cynnydd mawr wedi digwydd o ran datblygu polisiau ac arfer. Mae'r rhain wedi dangos trefniadau gweithio da rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a'r sector annibynnol. Bydd SSIW yn cadw llygad ar weithredu'r cyfarwyddyd hwn a bydd hefyd yn cefnogi ei weithrediad drwy ei raglen ddatblygu.

7.35 Dyma rai o'r camau eraill a fydd yn cyfrannu at amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed:

- cefnogaeth ychwanegol sy'n cael ei roi i fentrau gofalwyr
- gweithdrefniadau chwythu'r chwiban i ddatgelu arferion llygredig a gwael yn y gwaith
- safonau proffesiynol a systemau archwilio cadarn sy'n cael eu gweithredu drwy'r Ddeddf Safonau Gofal.



Swyddfa Ymchwil a Datblygiad Cymru Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol

8.1 Thema sydd wedi bod yn amlygu ei hun mewn datblygiad polisi ac arfer mewn gofal cymdeithasol yw'r angen am sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddatblygiadau ym maes gofal cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, mae Swyddfa Ymchwil a Datblygiad Cymru mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (WORD) wedi parhau i weithredu'r strategaeth ymchwil a datblygiad gofal cymdeithasol i Gymru. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys dosbarthu grantiau i unigolion sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac mewn adrannau academiaidd cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd 21 o grantiau gwerth £432,066 ym maes gofal cymdeithasol gan gynnwys ariannu ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â pholisi, ariannu gan gynigion ar y cyd rhwng gweithwyr academiaidd a gweithwyr gwasanaethau, a secondiad i weithwyr gwasanaethau i ymgymryd â gwaith ymchwil gyda chefnogaeth academiaidd.

8.2 Drwy gydol y flwyddyn, gwelwyd pwyslais cynyddol ar ddatblygu cydweithio rhwng staff academiaidd a'r rheiny sy'n gweithio yn y gwasanaethau. Er mwyn cefnogi gwaith o'r fath, mae WORD

wedi sefydlu tair canolfan gefnogi ymchwil a datblygiad i ddarparu cyngor a chefnogaeth i weithwyr gwasanaethau sy'n dymuno ymgymryd â phrosiectau ymchwil. Mae'r tair canolfan yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a Gorllewin a De Cymru gyda chontractau am dair blynedd. Caiff y canolfannau eu hariannu o gyllidebau gofal cymdeithasol ac iechyd, ac mae ganddynt gyfrifoldeb ychwanegol i ddatblygu prosiectau ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol.

8.3 Swyddogaeth allweddol i WORD yw darparu tystiolaeth ar sail ymchwil i gefnogi llunio a gweithredu polisiâu. Ar ôl arolwg o WORD ym 1999, daeth y swyddfa'n rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2000. Mae'r symudiad hwnnw'n atgyfnerthu'r gweithio agos rhwng ymchwil a datblygu polisi. Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd prosiectau ym meysydd arolygon Rhan 8, eiriolaeth plant a phobl ifanc, ac astudiaethau ar ddefnyddio arian argyfwng gaeaf a rhyddhau o'r ysbyty. Cafodd canlyniadau'r astudiaethau hyn eu dosbarthu i weithwyr gwasanaethau drwy gyfrwng adroddiadau a seminarau/gweithdai.



Atodiad 1: Adroddiadau a gyhoeddwyd ac i gael eu cyhoeddi

Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 1999-2000

Cartrefi plant gwirfoddol: Nangwyddon a Danescourt House 1998/99 and 1999/00

Arolwg o wasanaethau GALRO: Panel Caerdydd a'r Fro
Panel De Ddwyrain Cymru

Rheoli gofal gwasanaethau i bobl hŷn yng: Nghasnewydd
Gwynedd

Arolygu gwasanaethau maeth yng: Nghastell-nedd Port Talbot
Ceredigion

Gwasanaethau sydd yng ngofal awdurdod lleol ym: Sir Fynwy
Caerdydd

Gwasanaethau i blant mewn angen yn Wrecsam sy'n byw gartref

Arolwg o reolaeth ac arferion gwasanaethau plant yng Nghaerffili

Adroddiadau a gyhoeddwyd er mis Mawrth ar arolygiadau a wnaed ym 1999/2000

Rheoli gofal gwasanaethau i bobl hŷn yng: Sir Fflinta
Sir Fynwy

Arolwg o Unedau Cofrestru ac Arolygu yng Nghymru

Gwasanaethau i blant mewn angen sy'n byw gartref yng: Nghaerdydd
Blaenau Gwent
Conwy



Atodiad 2: Rhaglen Arolygu 2000/2001

Teitl yr Arolwg	Awdurdod
Arolygiadau Mawr	
Amddiffyn plant	Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Mynwy, Sir Ddinbych a Blaenau Gwent
Pobl anabl	Wrecsam, Abertawe, Powys a Thor-faen
Cyfiawnder leuenctid	Sir Gaerfyrddin
Arolygiadau Thematig	
Gadael gwasanaethau gofal Gwaith cymdeithasol ysbytai	Gorolwg Cymru gyfan
Arolygiadau Rheoleiddio	
Llety diogel: mae'r archwiliad tair blynedd o ganolfan ddiogel Hillside	Castell-nedd Port Talbot
Cartrefi plant gwirfoddol: caiff y ddau gartref sydd wedi eu cofrestru ar hyn o bryd eu harolygu bob blwyddyn.	Byddin yr Eglwys Ymddiriedolaeth Teuluoedd Plant
Asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol: mae'r gwasanaeth a ddarperir gan Barnardos i gael ei arolygu yn 2000-01	Barnardos

Atodiad 3: Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Strwythur (Tachwedd 2000)

Prif Arolygydd

Mr A G Williams

GRŴP AROLYGU

Dirprwy Brif Arolygydd

Mr R Tebboth

Arolygwyr

Mr D Barker
Mrs V Connors
Mr S Vaughan

UNED DDATBLYGU: GWASANAETHAU OEDOLION

Dirprwy Brif Arolygydd

Mr R C Woodward

Arolygwyr
Mrs N Cooper

Gofal Cymunedol a Thymor Hir;
Gwasanaethau i bobl hŷn a phobl
anabl; Gwasanaethau i Ofalwyr;
Cyfle Cyfartal; Epilepsi

Mrs P Vogt

Cydweithio gydag Iechyd,
Hyblygrwydd Newydd, Gwasanaethau
i bobl ag anabledd dysgu.
Gwasanaethau i bobl â salwch
meddwl; HIV/AIDS/Cam-ddefnyddio
Sylweddau

Mr C D Vyvyan

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru,
Safonau Ansawdd

Mrs M Provis

Cyngor Gofal Cymru, Hyfforddiant
Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar secondiad
Mr C Hawker

Prosiect Rheoli Perfformiad

UNED DDATBLYGU: GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Dirprwy Brif Arolygydd

Mrs M Michael

Gorolwg, Cynlluniau Gwasanaethau Plant, Adroddiad *Ar Goll Mewn Gofal* ar Dribiwnlys Gogledd Cymru, Cyswllt â Chyrff Proffesiynol, Cyrff Gwirfoddol Gofal Plant, Gwasanaethau Gwarcheidwaid ad Litem a Swyddogion Adrodd

Arolygwyr: Mr J Corbett

Plant yn Gyntaf, Asesu a Chynllunio Gofal i Blant sy'n derbyn gofal, Mabwysiadu, Maethu, Gweithdrefnau Eiriolaeth a Chwyno, Gadael Gofal, Ymchwil Gwasanaethau Plant

Mr D Johnston

Amddiffyn Plant, Tribiwnlys Gogledd Cymru, Ymchwiliadau Cymhleth, Chwythu'r Chwiban, Cyfweld Ymchwiliol

Mr M Price

Cyfiawnder Ieuenctid, Strategaeth Lleoli, Gofal Preswyl, Iechyd Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau i Blant ag Anabledd/Anawsterau Dysgu, Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd.

Cangen Weinyddol

Cyswllt cyffredinol 029 2082 5655.

Atodiad 4: Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Rhaglen Ddatblygu: 2000-2001

Cynigion Datblygu – Meysydd Gwaith

Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed: Mewn Dwylo Diogel

Cydweithio, hyblygrwydd, gofal tymor hir/Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol
Strategaeth Gofalwyr

Mynediad Teg i Ofal

Amddiffyn Oedolion a rhwydwaith cam-drin ariannol

Anabledd Dysgu: Fframwaith Gwasanaeth

Strategaeth Iechyd Meddwl

Oedolion Ifanc ag Anableddau Corfforol

Gofal Uniongyrchol/Tu Allan i Oriau

Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol - cydweithio ar
Cydweithio ar Gofrestru ac Arolygu

Fframwaith Perfformiad/Cynllunio Gofal Cymdeithasol/Rheoli Gwybodaeth

Gweithdy Mabwysiadu Nawr

Cyfarwyddyd Fframwaith i asesu Plant mewn Angen a'u teuluoedd

Gwellu Dewis Lleoliad - gweithdy

Gweithdy Plant yn Gyntaf

Gweithdy dadansoddi Data Plant sy'n derbyn Gofal

Gweithdy Arolwg y Prif Weinidog o fabwysiadu

Ychwanegiad: Ail Adroddiad Blynyddol y Grŵp Arolygu Ymgynghorol am y Flwyddyn 1999-2000

Cyflwyniad

Sefydlwyd y Grŵp Arolygu Ymgynghorol ym 1995, yn unol ag egwyddorion Siarter y Dinesydd. Ei ddiben cyffredinol yw gwneud rhaglen arolygu genedlaethol SSIW yn fater o ymwneud i lywodraeth ganol a lleol a buddiannau lleyg. Dyma yw ei gylch gwaith:

1. ystyried cynigion yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a rhai cysylltiedig
2. adolygu adolygiadau sydd wedi digwydd ac ymateb i'r adolygiadau hynny
3. ystyried, o bryd i'w gilydd y cyfle ar gyfer gwaith yr Arolygiaeth yn y dyfodol.

Mae'r i'r Grŵp statws corff cyhoeddus anadrannol (corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad er 1 Gorffennaf 1999).

Daeth y cyfnod aelodaeth gwreiddiol o dair blynedd i ben ym 1998. Wrth ailsefydlu'r Grŵp, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid enwebu pedwar aelod (dau yr un gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r naw lle arall i'w llenwi drwy hysbysebu agored, i gynrychioli darparwyr annibynnol gwasanaethau cymdeithasol a buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Aelodau

Dyma yw aelodaeth y grŵp:

Cyngh Mike Hedges, Dinas a Sir Abertawe (enwebwyd gan WLGA)

Cyngh Anita Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (enwebwyd gan WLGA i gymryd lle'r Cyngh Marlene Thomas)

Colin Preece, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Castell-nedd - Port Talbot (enwebwyd gan ADSS)

Michael O'Leary, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Blaenau Gwent (enwebwyd gan ADSS i gymryd lle Steve Atkinson)

Yvonne Apsitis, cyfarwyddwraig a rheolwraig DayBreak Wales (darparwr annibynnol) - Cadeirydd

Mario Kreft, perchennog a rheolwr cartrefi preswyl a nyrsio (darparwr annibynnol) - Is-Gadeirydd

James Crowe, Cyfarwyddwr SCOVO (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Eirianwen Davies, gofalwraig a gweithwraig wirfoddol (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Stuart Davies, swyddog gwybodaeth ac eiriolaeth, RNIB (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Pedr McMullen, prifathro wedi ymddeol a gofalwr (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Sherrall Morris, gweithwraig brosiect, Anabledd Cymru (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Margaret Thomas, gofalwraig a gweithwraig gymdeithasol (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Vanessa Webb, Cyfarwyddwraig Cyngor y Deillion yng Nghymru (buddiannau defnyddwyr/gofalwyr)

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Grŵp ddwywaith, ar 13 Rhagfyr 1999 yng Nghaerdydd ac ar 26 Mehefin 2000 yn Llanfair-ym-Muallt. Darperir cofnodion y cyfarfodydd drwy wneud cais i SSIW.

Cynnal y busnes

Mae'r Grŵp yn gweithredu'n unol â'i gylch gwaith a chyda chod gweithredu, yn seiliedig ar batrwm wedi ei gynhyrchu gan Swyddfa'r Cabinet. Mae wedi mabwysiadu egwyddorion o fod yn agored yn unol â Chod Gweithredu'r Cynulliad Cenedlaethol ar Wybodaeth Gyhoeddus. Mae wedi penderfynu gwneud ei gyfarfodydd yn rhai gyhoeddus drwy safle SSIW ar y we (pan fydd honno ar gael), ac i ddarparu ei agendâu a nodiadau am ei gyfarfodydd pan ar gais. Bydd Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu pob cyfarfod a'r Dirprwy Brif Arolygydd (Adolygiadau) yn gweithredu fel ysgrifennydd.

Cyllid

Nid oes gan y Grŵp Arolygu Ymgynghorol ei gyllideb ei hun. Ni chaiff yr aelodau eu talu. Telir costau gweinyddol o gyllideb ddirprwyedig a chyllideb rhaglenni SSIW.

Materion a drafodwyd

Mae'r Grŵp yb pwysu ar ystod eang o brofiad i gynghori'r SSIW yn ei waith. Mae wedi ymdrechu i sicrhau bod arolygiadau mor berthnasol ag sy'n bosibl i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu'n gofalu am bobl sy'n eu defnyddio.

Mae'r Grŵp yn tynnu ar ystod eang o brofiad i gynghori SSIW yn ei waith. Mae wedi ceisio gwneud adolygiadau mor berthnasol â phosibl i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu sy'n gofalu am y rhai sy'n eu defnyddio.

Bu'r Grŵp yn trafod Adroddiad y Prif Arolygydd am y flwyddyn 1998-1999. Bu'r grŵp yn rhoi cyngor am y rhaglen arolygu a fwriedir am y flwyddyn 2000-2001. Bu'r grŵp yn adolygu'r rhaglen arolygu am y flwyddyn 1999-2000. Derbyniodd y Grŵp gyflwyniadau am gydadolygiadau o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru (a wnaed ar ran SSIW a'r Comisiwn Archwilio) a chafodd y rheiny eu trafod. Trafodwyd hefyd y trefniadau newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau a safonau yn y gweithlu, i gael eu cyflwyno yn sgil y Ddeddf Safonau Gofal 2000. Derbyniodd Cadeirydd y Grŵp ohebiaeth gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â Chod Ymarfer ar Wybodaeth Agored i'r Cyhoedd. Anfonwyd ateb i'r ohebiaeth.

Mae'r Grŵp yn parhau i gefnogi swyddogaeth adolygiadau wrth godi safonau mewn gwasanaethau cymdeithasol, ac mae wedi nodi'r anawsterau a achosir i SSIW yn ei waith oherwydd prinder staff. Mae'r Grŵp yn dal i ofidio y dylai defnyddwyr a gofalmwyr gael safonau gofal cyson a chael gwybodaeth glir am safonau mewn darpariaeth gyhoeddus, wirfoddol a phreifat. Mae hefyd yn awyddus i weld bod buddiannau pobl ag anghenion penodol yn cael eu hamddiffyn. Mae wedi croesawu datblygu cyd-arolygiadau, a byddai'n hoffi gweld ymestyn hynny gan gyfeirio'n arbennig at gydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuchyd.

Yvonne Apsitis

Cadeirydd

Richard Tebboth

Ysgrifennydd

SSIW

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Hydref 2000